Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad

## Ymateb i'r ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Hydref 2020

CP 303

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad

## Ymateb i'r ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Hydref 2020

CP 303

**© Hawlfraint y Goron 2020**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Judicial_Policy_Correspondence@Justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-2175-5

CCS1020297428 10/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad a manylion cyswllt** | **3** |
| Cwynion neu sylwadau | 3 |
| **Crynodeb Gweithredol** | **4** |
| **Cefndir** | **7** |
| Y Ddeddfwriaeth Berthnasol | 7 |
| Yr Ymgynghoriad | 8 |
| **Crynodeb o'r ymatebion** | **11** |
| **Ymatebion i gwestiynau penodol** | **12** |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | **35** |
| Asesiad Effaith | 35 |
| Cydraddoldeb | 36 |
| Prawf Effaith ar yr iaith Gymraeg | 36 |
| **Casgliad a'r camau nesaf** | **38** |
| **Egwyddorion ymgynghori** | **39** |
| **Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr** | **40** |
| **Atodiad B – Ymatebion i'r ymgynghoriad: Crynodeb** | **43** |
| Ymgyngoreion Barnwrol Statudol | 43 |
| Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder | 44 |
| Y Farnwriaeth | 44 |
| Gweinyddiaethau Datganoledig | 45 |
| Sector Gwasanaethau Cyfreithiol | 45 |
| Academyddion Cyfreithiol | 45 |
| Busnesau a Sefydliadau Eraill | 46 |
| Undebau Llafur | 46 |
| Cyrff Rheoleiddiol | 46 |

Sefydliadau Hawliau Dynol 47
Aelodau'r Cyhoedd 47

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Ymateb y Llywodraeth yw’r ddogfen hon yn dilyn yr ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Bydd yn cynnwys:

- cefndir yr ymgynghoriad;
- crynodeb o’r ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad;
- ymateb manwl i’r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn y papur ymgynghori;
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â **Joanne Davies** yn y cyfeiriad isod:

**Tîm Polisi Barnwrol / Judicial Policy Team**
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost**: Judicial_Policy_Correspondence@justice.gov.uk

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/departure-from-retained-eu-case-law-by-uk-courts-and-tribunals

Gallwch gael fersiynau o’r cyhoeddiad hwn mewn fformat arall drwy e-bostio’r Tîm Polisi Barnwrol: Judicial_Policy_Correspondence@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os hoffech wneud cwyn, neu os oes gennych unrhyw sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

# Crynodeb Gweithredol

Bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a diwedd y Cyfnod Pontio yn Rhagfyr 2020 yn golygu newid sylfaenol i bawb. Trwy ddeddfwriaeth, mae’r Llywodraeth wedi gwneud darpariaethau i ddod â chyfreithiau’r UE yr ydym wedi dewis eu cadw yn rhan o’n cyfraith ni fel bod ein cyfraith ni yn parhau i fod yn glir ac yn gadarn.

Wrth gwrs, nid yw ein cyfraith yn seiliedig ar statud yn unig; mae hefyd wedi datblygu, o dan ein system cyfraith gwlad, o ddyfarniadau cyfraith achosion y llysoedd dros amser. Yn ystod ein cyfnod fel aelod o’r UE, mae llawer o’r gyfraith achosion honno wedi datblygu yn sgil dyfarniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

O fis Ionawr 2021, ein llysoedd ni, yn hytrach na Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch deddfau sy’n rheoli ein bywydau[1]. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau eglurder cyfreithiol a sicrwydd yn ein cyfraith ar ôl i ni ymadael â’r UE, mae’r Senedd, trwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (“Deddf 2018”), wedi gwneud darpariaeth fel y bydd cyfreithiau’r UE yr ydym wedi dewis eu cadw yn cael eu dehongli yn unol â phenderfyniadau a’r egwyddorion a bennwyd gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, fel y’u haddaswyd gan gyfraith y DU o dro i dro, yn amodol ar rai esemptiadau penodol (“cyfraith achosion yr UE a gedwir”).

Drwy wneud y ddarpariaeth hon, cydnabuwyd hefyd nad yw’r ffordd y mae cyfraith yn cael ei dehongli gan ein llysoedd a’n tribiwnlysoedd yn aros yn statig dros amser. Wrth gwrs, mae ein hymadawiad â’r UE wedi achosi newid i’r cyd-destun o safbwynt ystyried y gyfraith; a byddwn yn dymuno i’r penderfyniadau a wneir gan ein llysoedd adlewyrchu hynny pan fo hynny’n briodol. Heb y gallu i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, mae risg y bydd cyfraith yr UE a gedwir yng nghyfraith y DU yn parhau i fod ynghlwm wrth ddehongliadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd a gellir dadlau nad yw hyn bellach yn briodol yn y DU.

Dyna pam y cyflwynodd Deddf 2018 bŵer i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban (mewn rhai achosion penodol) wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, a defnyddio eu profion eu hunain wrth benderfynu a ddylent wyro oddi wrth eu cyfraith achosion eu hunain. Penderfynodd y Senedd hefyd, wrth ddiwygio Deddf 2018 i fod yn Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (“Deddf 2020”), y gellir ymestyn y rhestr o lysoedd a all wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ymhellach, a hynny yn dilyn ymgynghori.

[1] Yn amodol ar delerau’r Cytundeb Ymadael a Phrotocol Gogledd Iwerddon

Mae’r Llywodraeth yn ddiolchgar am yr ymatebion ystyriol a gafwyd i’r ymgynghoriad ar arfer y pŵer hwn, ac yn benodol y cwestiynau: pa lysoedd ddylai allu gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, ac i ba raddau ni fydd y llys yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir; y prawf y bydd yn rhaid defnyddio wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir; sut y pennir cynsail yn yr amgylchiadau hyn, a’r hyn y dylai’r llysoedd, gan gynnwys Goruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban ei gymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau o’r fath.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o’r pryder a fynegwyd am effaith posibl y penderfyniad i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ar hyder yn y gyfraith a sicrwydd yn y gyfraith; ond mae hefyd yn ymwybodol mai p’un a ddylai mwy o lysoedd allu gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, yn hytrach na bodolaeth y gallu i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, oedd hanfod yr ymgynghoriad hwn – roedd y pwynt diwethaf eisoes wedi’i benderfynu gan y Senedd.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad yn drylwyr, mae’r Llywodraeth yn fodlon ei fod yn briodol i gyflwyno Rheoliadau i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i Lys Apêl Cymru a Lloegr; Llys Apêl Gogledd Iwerddon; Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl yn gwrando ar fater chydnawsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli; Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn; Llys Apêl Prisio Tiroedd a’r Llys Apêl Cofrestriadau. Bydd ymestyn y pŵer i’r rhestr gyfyngedig hon o lysoedd yn ein helpu i gyflawni ein nod - galluogi cyfraith achosion yr UE a gedwir i ddatblygu’n gynt na fyddai efallai wedi digwydd fel arall. Byddai cam o’r fath yn helpu i liniaru’r effeithiau gweithredol ar Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban a fyddai’n digwydd petai’r pŵer yn cael ei neilltuo’n benodol i’r llysoedd hynny; a bydd yna fanteision hefyd i Oruchaf Lys y DU oherwydd bydd yn cael cymorth deialog barnwrol blaenorol ar y materion cymhleth hyn gan y Llys Apêl neu’r llys cyfatebol perthnasol yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Trwy gyfyngu’r pŵer hwn i’r llysoedd apêl uchaf, byddwn hefyd yn lleihau’r risg, a adnabuwyd yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad, o effeithiau andwyol a allai godi o unrhyw ansicrwydd cyfreithiol a fyddai’n arwain at liniaru pellach, a’r risg o safbwyntiau gwahanol rhwng llysoedd ar draws y DU.

O ran y cwestiwn ar y prawf i’w ddefnyddio gan y llysoedd ychwanegol hyn, cafodd ein cynnig ar gyfer un prawf – a fabwysiadwyd gan Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu p’un a ddylai wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun – gefnogaeth y rhan fwyaf a wnaeth ymateb i’r ymgynghoriad. Gan fod y prawf hwnnw eisoes wedi’i gymeradwyo unwaith gan y Senedd yn Neddf 2018 fel y prawf addas ar gyfer Goruchaf Lys y DU, mae’r Llywodraeth yn hyderus mai dyma’r dewis cywir, oherwydd drwy bennu y dylai’r llysoedd ychwanegol ddefnyddio’r un prawf byddwn yn hyrwyddo pwysigrwydd cysondeb rhwng y llysoedd. O ystyried natur y prawf hwn, nid yw’r Llywodraeth o blaid gosod ffactorau ychwanegol i’r llysoedd eu hystyried.

Yn olaf, gofynnwyd nifer o gwestiynau yn yr ymgynghoriad am werth cynsail rhai penderfyniadau penodol - mae ein hymatebion manwl i’r rheini wedi’u cynnwys yng nghorff y ddogfen hon, ond yn gryno, ni fydd y Llywodraeth yn gwneud newidiadau yn hyn o beth.

# Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ‘Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir’ ar yr 2il o Orffennaf 2020. Gwahoddwyd sylwadau ar p’un a ddylid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE i lysoedd eraill ar draws y DU ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (“Deddf 2018”), fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (“Deddf 2020”), yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar ôl i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ar yr 31ain o Ragfyr 2020 o ran ymarfer y pŵer a roddwyd i ni yn Adran 6 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020).

Nod Deddf 2018, ymysg pethau eraill, yw rhoi eglurder cyfreithiol a sicrwydd yn ein cyfraith ar ôl i ni ymadael â’r UE. Mae’n amlinellu pa elfennau o gyfraith yr UE fydd yn cael eu cadw yng nghyfraith y DU, a sut dylid dehongli cyfraith yr UE a gedwir, gan gynnwys i ba raddau y mae cyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei chadw ac i ba raddau y dylai llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU ei dilyn.

## Y Ddeddfwriaeth Berthnasol

Yn unol ag Adran 6 Deddf 2018 (fel y'i diwygiwyd), ni fydd llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU yn rhwym mwyach wrth egwyddorion a bennir gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, nac wrth unrhyw benderfyniadau a wneir gan y llys hwnnw, ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben (11pm ar y 31ain o Ragfyr 2020), yn amodol ar ddarpariaethau’r Cytundeb Ymadael. Fodd bynnag, mae hefyd yn gwneud darpariaeth y dylai cyfraith yr UE a gedwir, cyn belled nad yw’r gyfraith honno wedi cael ei haddasu ar ddiwedd y Cyfnod Pontio neu ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, ac i’r graddau y mae’n berthnasol, gael ei dehongli yn unol â chyfraith achosion a gedwir.

Mae cyfraith achosion a gedwir yn cynnwys cyfraith achosion domestig a gedwir, a chyfraith achosion yr UE a gedwir. Mae cyfraith achosion domestig a gedwir yn golygu’r penderfyniadau a’r egwyddorion a bennwyd gan lysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU cyn i’r Cyfnod Pontio ddod i ben, mewn perthynas â chyfraith yr UE a gedwir o dan Ddeddf 2018 (yn amodol ar rai eithriadau penodol). Mae hyn yn cynnwys cyfraith achosion fel y’i haddaswyd gan gyfraith y DU ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben. Mae cyfraith achosion yr UE a gedwir yn golygu’r penderfyniadau a'r egwyddorion a bennwyd gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, mewn perthynas â chyfraith yr UE a gedwir o dan Ddeddf 2018 (yn amodol ar rai eithriadau penodol), a oedd yn berthnasol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio neu

cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, fel y’u haddaswyd gan gyfraith y DU. Dim ond Goruchaf Lys y DU neu Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban (fel y llys apeliadau troseddol terfynol yn Yr Alban mewn amgylchiadau pan nad oes modd cyflwyno apêl i Oruchaf Lys y DU) sydd â'r awdurdodaeth i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir (o dan Adran 6(4) Deddf 2018, ac wrth wneud hynny byddent yn defnyddio’r rheolau maent yn eu harfer wrth wyro oddi wrth eu cyfraith achosion blaenorol eu hunain.

## Yr Ymgynghoriad

Wrth i ni ymadael â’r UE ac wrth i’r Cyfnod Pontio ddirwyn i ben, mae’r cyd-destun ar gyfer ystyried cyfraith yr UE a gedwir, a chyfraith achosion yr UE a gedwir, yn newid yn sylfaenol. Mae’r Llywodraeth yn cydnabod yr angen i ddarparu eglurder a sicrwydd cyfreithiol yn dilyn y newid sylfaenol hwn, ond hefyd na ddylai ein llysoedd barhau i fod yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir pan na fydd gwneud hynny’n briodol.

Dyma’r cyd-destun newydd ar gyfer ystyried cyfraith yr UE a gedwir a chyfraith achosion yr UE a gedwir yn y dyfodol. Yn yr un modd ag y mae llysoedd a thribiwnlysoedd yn gallu gwyro oddi wrth eu cyfraith achosion eu hunain ar hyn o bryd (yn amodol ar athrawiaeth gynsail), mae angen i lysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU all gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir mewn amgylchiadau tebyg.

Mae Deddf 2018 yn rhoi’r pŵer hwn i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban (fel y llys apeliadau troseddol terfynol yn Yr Alban mewn achosion pan nad oes modd apelio ymhellach i Oruchaf Lys y DU). Wrth ystyried a ddylid ymestyn y pŵer i gynnwys llysoedd a thribiwnlysoedd eraill, yn unol ag Adran 6 Deddf 2018, mae’r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus buddioldeb galluogi rhagor lysoedd a thribiwnlysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, er mwyn i gyfraith yr UE a gedwir allu datblygu’n briodol ac yn amserol. Byddai ymestyn y pŵer i alluogi rhagor o lysoedd a thribiwnlysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn rhoi mwy o gyfle i esblygu’r ffordd y dehonglir cyfraith yr UE i gydnabod statws newidiol y DU.

Mae Adran 6 Deddf 2018, fel y’i diwygiwyd gan Adran 26(1) Deddf 2020, yn gwneud darpariaeth i Weinidog y Goron gyflwyno Rheoliadau a fydd yn golygu nad yw llysoedd a thribiwnlysoedd heblaw am Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban (pan fydd yn gweithredu fel y llys apêl terfynol) yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Dim ond wrth ddehongli cyfraith yr UE a gedwir y mae’r pŵer hwn yn berthnasol. Ni fydd yn effeithio ar ddehongli cyfraith <u>nad</u> yw’n gyfraith yr UE a gedwir. Er enghraifft, mae Adran 7A Deddf 2018 yn nodi’r hawliau a’r rhwymedigaethau sy’n rhan o’r Cytundeb Ymadael a Phrotocol Gogledd Iwerddon. Rhaid dehongli’r hawliau hyn yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymadael (gan gynnwys cyfreitheg Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, pan

fo’n berthnasol).[2] Nid yw'r pŵer yn Adran 6 yn effeithio ar y rhwymedigaeth hon. Hefyd, rhaid dehongli unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU (gan gynnwys cyfraith ddomestig sy’n ffurfio rhan o gyfraith yr UE a gedwir), sy’n gweithredu gofynion y Cytundeb Ymadael, yn unol â’r Cytundeb Ymadael. Ar ôl i’r Cyfnod Pontio ddod i ben, ni fyddai llysoedd a thribiwnlysoedd yn gallu gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn yr amgylchiadau hyn.

Mi wnaeth yr ymgynghoriad geisio barn ymgyngoreion ar ddefnyddio’r pŵer yn Adran 6(5A) Deddf 2018, (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020), sy’n galluogi’r Llywodraeth i wneud y canlynol:

- dynodi pa lysoedd neu dribiwnlysoedd ychwanegol fydd yn cael y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- pennu *“i ba raddau, neu ym mha amgylchiadau”*, na fydd y llys neu’r tribiwnlys *“yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir”*;
- amlinellu’r prawf y bydd *“rhaid i lys neu dribiwnlys perthnasol ei ddefnyddio”* wrth benderfynu a fydd yn gwyro oddi wrth unrhyw gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- pennu'r ystyriaethau *“a fydd yn berthnasol”* i’r llys neu’r tribiwnlys wrth wneud penderfyniadau o’r fath;
- pennu'r ystyriaethau *“a fydd yn berthnasol”* i Oruchaf Lys y DU neu Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban wrth wneud penderfyniadau o’r fath.

Wrth ystyried a ddylid arfer y pŵer i gyflwyno Rheoliadau, ac os felly sut dylid gwneud hynny, er mwyn ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd is eraill, mi wnaeth y Llywodraeth ystyried sut byddai’r opsiynau yn effeithio ar y canlynol:

- datblygiad cyfraith achosion yn y DU ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben;
- eglurder a sicrwydd y gyfraith yn y DU;
- gweinyddu cyfiawnder a’r effaith weithredol ar lysoedd a thribiwnlysoedd yng ngwahanol awdurdodaethau cyfreithiol y DU; ac
- ein rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:
    - rhoi sylw dyledus i'r canlynol –
        - yr angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
        - datblygu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a’r rheini nad ydynt yn eu rhannu; a
        - meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu’r nodwedd hon.

[2] Gweler adran 6(6A) a 7C Deddf 2018.

Ar sail asesiad rhagarweiniol yn unol â'r meini prawf uchod, mi wnaethom adnabod ac ymgynghori ar ddau opsiwn polisi yr ydym ni o’r farn allai gyflawni’r nodau polisi, sef galluogi mwy o lysoedd i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, a chynnal sicrwydd cyfreithiol ar draws y DU ar yr un pryd. Yr opsiynau oedd i:

1. Ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i Lys Apêl Cymru a Lloegr a’r llysoedd sydd fwyaf cyfatebol iddo yn awdurdodaethau eraill y DU; neu
2. Ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i Uchel Lys Barn Cymru a Lloegr a’r llysoedd sydd fwyaf cyfatebol iddo yn awdurdodaethau eraill y DU, yn ogystal ag i’r Llys Apêl a’r llysoedd cyfatebol ar draws y DU.

Mi wnaeth yr ymgynghoriad wahodd safbwyntiau (ar draws 11 cwestiwn) ar:

1. A ddylid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill;
2. A ddylid defnyddio prawf, ac os felly pa brawf;
3. Pa ystyriaethau ddylai fod yn berthnasol i brawf Goruchaf Lys y DU, Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban ac unrhyw lysoedd eraill y rhoddir y pŵer hwn iddynt;
4. Defnyddio’r athrawiaeth gynsail ar gyfer penderfyniadau sy’n ymwneud â gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir; ac
5. Asesu’r effaith a’r effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys ar wahanol lefelau o’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd.

Anfonwyd yr ymgynghoriad at yr ymgyngoreion barnwrol statudol (Llywydd Goruchaf Lys y DU, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon ac Arglwydd Lywydd Llys Sesiwn yr Alban) ynghyd ag aelodau’r farnwriaeth yn systemau cyfreithiol amrywiol y DU, Llywodraeth Yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru. Fe’i anfonwyd hefyd at gyrff cynrychioladol yn y sector cyfreithiol, busnesau a chyrff rheoleiddiol, yn gofyn am eu safbwyntiau ar ymarfer y pŵer i gyflwyno’r Rheoliadau hyn.

Daeth y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos i ben ar y 13eg o Awst 2020. Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion a gafwyd, gan gynnwys sut wnaeth y broses ymgynghori ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol a wnaed yn seiliedig ar y cynigion a ymgynghorwyd arnynt. Mae’r ddogfen hefyd yn amlinellu camau nesaf y Llywodraeth.

Nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys Asesiad Effaith nac Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb. Gwahoddwyd safbwyntiau ymgyngoreion ar unrhyw effaith, er mwyn gallu cymryd i ystyriaeth tystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae Asesiad Effaith wedi’i gyhoeddi ochr yn ochr â’r ddogfen hon ac mae datganiad o safbwynt yr effaith ar gydraddoldeb ar gael isod.

# Crynodeb o’r ymatebion

Cawsom 75 o ymatebion i’r papur ymgynghori. Mae pob canran a gyfrifwyd yn seiliedig ar nifer yr ymatebion a gafwyd (75) ni waeth os wnaethant ateb y cwestiwn ai peidio.

I’n helpu i ddadansoddi’r ymatebion a gafwyd, rydym wedi rhannu’r ymatebion i 12 categori gwahanol o ymatebwyr: Mae’r nifer o ymatebion a gafwyd ymhob categori wedi’i nodi yn y tabl isod.

| Disgrifiad | Nifer o ymatebion | % o’r cyfanswm |
|---|---|---|
| **Ymgyngoreion barnwrol statudol** | 4 | 5% |
| **Pwyllgorau Seneddol** | 1 | 1% |
| **Y Farnwriaeth** | 3 | 4% |
| **Gweinyddiaethau Datganoledig a Swyddfa Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon** | 3 | 4% |
| **Sector Gwasanaethau Cyfreithiol** | 30 | 40% |
| **Academyddion Cyfreithiol** | 4 | 5% |
| **Busnesau a sefydliadau eraill** | 12 | 16% |
| **Undebau Llafur** | 3 | 4% |
| **Cyrff Rheoleiddiol** | 2 | 3% |
| **Sefydliadau Hawliau Dynol** | 4 | 5% |
| **Aelodau’r Cyhoedd** | 9 | 12% |
| **Cyfanswm** | **75** | **100%** |

O blith yr ymatebion a gafwyd rydym wedi nodi bod:

- Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wedi cyflwyno ymateb ar y cyd;
- Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder wedi cyflwyno ymateb; a bod
- Academyddion cyfreithiol wedi ymateb yn bersonol ac nid ar ran eu sefydliad academaidd.

# Ymatebion i gwestiynau penodol

### P'UN A DDYLID CYFLWYNO RHEOLIADAU AC OS FELLY, I BA LYSOEDD Y DYLID YMESTYN Y PŴER I WYRO ODDI WRTH GYFRAITH ACHOSION YR UE A GEDWIR?

Roedd cwestiynau 1 – 3 yn yr ymgynghoriad yn gwahodd safbwyntiau gan ymatebwyr ar p'un a ddylid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill.

**Cwestiwn 1: Ydych chi o'r farn y dylai'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir gael ei ymestyn i dribiwnlysoedd a llysoedd eraill ar wahân i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban? Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 20 | 27% |
| Nac ydw<br>Ond os bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Rheoliadau, Opsiwn 1<br>Ond os bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Rheoliadau, Opsiwn 2 | 42<br>18 allan o 42<br>0 | 56%<br>43% (o bob ateb 'nac ydw')<br>0% (o bob ateb 'nac ydw') |
| Dim sylwadau ar ymestyn y pŵer | 11 | 15% |
| Aneglur | 2 | 3% |

**Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, sut byddai'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn effeithio ar bob un o'r opsiynau isod? Rhowch resymau dros eich ateb.**

a) **Y Llys Apêl a'r llysoedd ar lefelau cyfatebol;**
b) **Yr Uchel Lys, a'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar lefelau cyfatebol;**
c) **Pob llys a thribiwnlys.**

Ni wnaeth bawb ateb y cwestiwn hwn, ac mae'r prif themâu a godwyd o blith y rhai hynny a wnaeth ateb y cwestiwn wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y gwelir isod.

Mae'r tablau canlynol yn amlygu'r effeithiau positif a negatif a adnabuwyd o blith yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr opsiwn i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lefel y Llys Apêl.

| Effeithiau positif | | |
|---|---|---|
| Byddai'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr angen i gael sicrwydd cyfreithiol ac i'r gyfraith barhau i ddatblygu | 7 | 9% |
| Ysgafnhau'r baich ar Oruchaf Lys y DU | 6 | 8% |
| Caniatáu hyblygrwydd yn y gyfraith | 6 | 8% |
| Mwy o sgôp i faterion gael eu hailystyried gan farnwyr domestig | 5 | 7% |
| Cynnal lefel angenrheidiol o ragweladwyedd yn y gyfraith / penderfyniadau'n rhwymo'r llysoedd is / darparu'r sicrwydd mwyaf | 4 | 5% |
| Byddai'r farnwriaeth yn gallu ystyried ymlaen llaw yr achos dros wyro | 3 | 4% |
| Lleihau'r risg o orfod dargyfeirio | 2 | 3% |
| Lleihau'r costau i'r partïon | 2 | 3% |
| Mae'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â materion o'r fath yn fwy addas ar gyfer llysoedd apeliadol / arbenigedd priodol ar gyfer delio â materion o'r fath | 2 | 3% |
| Osgoi cynnydd anhydrin mewn lliniaru / effeithiau negatif ar effeithiolrwydd a mynediad at gyfiawnder | 2 | 3% |

| Effeithiau negatif | | |
|---|---|---|
| Cyflwyno elfen o ansicrwydd i gyfraith y DU / tanseilio'r athrawiaeth gynsail / diffyg cydlyniad wrth geisio datblygu'r gyfraith | 28 | 37% |
| Byddai cynnydd mewn achosion cynnar yn arwain at gynnydd yn llwyth gwaith y farnwriaeth / y llys | 18 | 24% |
| Byddai'n amhriodol i wneud y newid cyfansoddiadol hwn drwy offeryn statudol / mater i'r Senedd ydyw ac nid i'r llysoedd / anghyson â'r polisi yn 2018 | 12 | 16% |
| Dim pwerau traws-awdurdodaethol fel sydd gan Oruchaf Lys y DU | 7 | 9% |
| Byddai'r ansicrwydd yn tanseilio'r enw da sydd gan y DU yn rhyngwladol o ran datrys anghydfodau | 3 | 4% |
| Tanseilio hawliau confensiwn Aarhus / rhwymedigaethau'r Cytundeb Ymadael / confensiynau Rhyngwladol | 2 | 3% |
| Tanseilio'r trafodaethau sydd ar y gweill gyda'r UE | 1 | 1% |

Mae'r tablau canlynol yn amlygu'r effeithiau positif a negatif a adnabuwyd o blith yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr opsiwn i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lefel yr Uchel Lys a phob llys a thribiwnlys. Mi wnaeth y mwyafrif o'r rhai hynny a wnaeth ymateb nodi bod yr effeithiau yn c) uchod yn debyg i b), ond i raddau mwy. Oherwydd hyn, mae'r ddau opsiwn wedi'u cyfuno mewn un tabl.

| **Effeithiau positif** | | |
|---|---|---|
| Gwell mynediad at gyfiawnder / mwyhau gweinyddu cyfiawnder | **3** | **4%** |
| Dargyfeiredd ar gyflymdra cynt | 2 | 3% |
| Llys ar y lefel briodol yn penderfynu ar faterion | 1 | 1% |

| **Effeithiau negatif** | | |
|---|---|---|
| Lefel sylweddol o ansicrwydd cyfreithiol – anghysondeb / mympwyol | 50 | 66% |
| Cynnydd mewn niferoedd achosion a cheisiadau i apelio / lliniaru ar hap / pwysau ar y llysoedd perthnasol | 29 | 39% |
| Mwy o risg o ddargyfeirio ar draws yr awdurdodaethau yn y DU | 17 | 23% |
| Cynnydd yn y cymhelliant i bartïon ail-liniaru | 13 | 17% |
| Costau uwch ac oediadau | 11 | 15% |
| Nid oes gan lysoedd gwrandawiad cyntaf brofiad o wyro oddi wrth cynsail / byddai'n amhriodol i un barnwr wneud penderfyniadau o'r fath / diffyg arbenigedd | 8 | 11% |
| Byddai'n tanseilio'r enw da sydd gan y DU yn rhyngwladol o ran datrys anghydfodau | 7 | 9% |
| Mae'n anghyson â hierarchaeth strwythur y llysoedd / athrawiaeth gynsail | 6 | 8% |
| Byddai'r anghysondeb ar draws y DU yn annog unigolion i "siopa o gwmpas" | 4 | 5% |
| Byddai'n niweidio gallu'r DU i negodi yn ystod trafodaethau | 4 | 5% |
| Pwysau ar y farnwriaeth i wyro | 3 | 4% |
| Tanseilio hawliau confensiwn Aarhus / rhwymedigaethau'r Cytundeb Ymadael / confensiynau Rhyngwladol | 2 | 3% |
| Byddai'r ansicrwydd cyfreithiol yn para am yn hirach pan na fyddai'r partïon yn apelio yn erbyn penderfyniad i uwch lys | 2 | 3% |
| Colli'r cydbwysedd rhwng amcanion y polisi | 1 | 1% |

**Cwestiwn 3: Yn eich barn chi, pa opsiwn sy’n sicrhau’r cydbwysedd gorau rhwng gallu gwyro’n amserol oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, a chynnal sicrwydd cyfreithiol ar draws y DU? Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Dim un | 42 | 56% ac o’r rheini: |
| Ond os bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Rheoliadau, Opsiwn 1 | 18 (allan o 42) | 43% |
| Ond os bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Rheoliadau, Opsiwn 2 | 0 (allan o 42) | 0% |
| Opsiwn 1 | 24 | 32% |
| Opsiwn 2 | 2 | 3% |
| System atgyfeirio (dewis 1af) | 1 | 1% |
| System atgyfeirio (2il ddewis) | 1 | 1% |
| Dim sylwadau | 5 | 7% |

**A ddylid cyflwyno Rheoliadau ai pheidio**

Nid oedd 56% o’r ymatebwyr o blaid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd heblaw Goruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban. Roedd y rhai hynny a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig hwn yn cynnwys cyfran fawr o’r sector gwasanaethau cyfreithiol, academyddion cyfreithiol, undebau llafur a busnesau a wnaeth ymateb i’r ymgynghoriad.

Mi wnaeth yr ymatebwyr nodi amryw o resymau i gefnogi peidio â chyflwyno Rheoliadau, ond y prif reswm a roddwyd oedd y risg i sicrwydd cyfreithiol petai’r pŵer hwn yn cael ei ymestyn i lysoedd y tu hwnt i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban. Roeddent o’r farn y byddai effaith ansicrwydd cyfreithiol o’r fath yn arwain at:

- gyflwyno ail-ymgyfreitha ar egwyddorion cyfreithiol sydd wedi’u hen sefydlu;
- dulliau gweithredu cyfreithiol gwahanol ar draws y DU wrth ymdrin â materion tebyg; a
- byddai fframwaith cyfreithiol digyswllt yn cael effaith andwyol mewn meysydd allweddol fel treth, cyflogaeth, yr amgylchedd a chydraddoldeb.

Daethant i’r casgliad y byddai effaith cronnus yr ansicrwydd hwn yn cael effaith negyddol ar fusnesau ac enw da’r DU yn rhyngwladol fel fforwm cyfrifol i setlo anghydfodau.

Mi wnaeth llawer o’r rhai hynny nad oeddynt yn cefnogi’r cynnig i ymestyn y pŵer fynegi pryder ynghylch yr egwyddor o ddibynadwyedd ar y llysoedd i ystyried gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir – bu iddynt ddadlau bod hwn yn fater i’r Senedd ddeddfu arno.

*Opsiwn 1*
Roedd 32% o'r holl ymatebwyr yn cefnogi'r opsiwn i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lefel y Llys Apêl. Mae'r rhif hwn yn cynyddu i 56% pan gynhwysir yr ymatebwyr hynny a ddywedodd mai'r hyn y byddent yn ei ffafrio fyddai dim Rheoliadau, ond y byddent, er hynny, yn ffafrio ymestyn y pŵer i'r Llys Apêl petai rheoliadau'n cael eu cyflwyno. O blith y rhain, roedd consensws clir mai'r effeithiau a fyddai'n deillio o'r opsiwn hwn fyddai'r hawsaf i'w rheoli ac a fyddai'n achosi'r risg lleiaf o effeithiau negatif fel ansicrwydd cyfreithiol. Mi'r oedd yr ymgyngoreion barnwrol statudol, ymatebwyr barnwrol eraill a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ffafrio'r opsiwn hwn.

Roedd rhywfaint o gydnabyddiad ymysg yr ymatebion o fanteision ymestyn y pŵer i wyro i lefel y Llys Apêl, yn enwedig er mwyn lliniaru'r pwysau ar Oruchaf Lys y DU. Tynnwyd sylw hefyd at fanteision materion yn cael eu trafod ymysg y farnwriaeth cyn iddynt gael eu penderfynu gan Oruchaf Lys y DU.

Roedd yr ymatebion hefyd yn cyfeirio at fanteision bod yna farnwyr uwch yn y Llys Apêl yn ystyried achosion o'r fath, o gymharu â'r Uchel Lys, a nodwyd cymhlethdodau penodol materion sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gedwir a Phrotocol Gogledd Iwerddon. Nodwyd hefyd bod penderfyniadau'r Llys Apêl yn cael eu riportio arnynt fwy o gymharu â phenderfyniadau'r Uchel Lys a byddai hynny'n helpu i hyrwyddo eglurder.

Mi wnaeth dau ymgynghorai barnwrol statudol gyfeirio at y manteision i Oruchaf Lys y DU a dywedodd yr Arglwydd Lywydd y byddai Opsiwn 1:

> "*yn rhyddhau Goruchaf Lys y DU o'r byrdwn o orfod delio â heriau o'r pedwar awdurdodaeth, a chaniatáu iddo elwa o brofiad llysoedd apeliadol wrth ddistyllu a hidlo cwestiynau yn ymwneud â'r gyfraith. Mae'n amddiffyn sicrwydd cyfreithiol.*"

*Opsiwn 2*
Dim ond dau ymatebydd (3%) wnaeth gefnogi Opsiwn 2. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu Opsiwn 2 yn gadarn ar y sail y byddai'n achosi ansicrwydd cyfreithiol sylweddol, anhrefn a dryswch o fewn y llysoedd. Roeddynt hefyd yn credu y byddai'n arwain at gynnydd anhydrin mewn gwaith wrth i ymgyfreithwyr geisio ail-ymgyfreitha ar bwyntiau'r gyfraith a oedd wedi'u setlo mewn ymgais i gael canlyniad mwy ffafriol; mynegodd rai ymatebwyr bryder hefyd ynghylch gallu rhai i gael mynediad at gyfiawnder.

Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch y risg gynyddol o "siopa o gwmpas" rhwng awdurdodaethau'r DU a fyddai'n cynyddu'r risg o ddargyfeiredd a mwy o ansicrwydd cyfreithiol. Cafwyd dadleuon nad yw materion o'r fath yn addas ar gyfer cael eu hystyried gan un barnwr a bod yn well i banel o farnwyr eu hystyried oherwydd y cymhlethdod fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn erfyn ar y Llywodraeth i fod yn ofalus wrth wneud y penderfyniad terfynol ynghylch p'un a ddylid ymarfer y pŵer a nodir yn Adran 6 Deddf 2018 er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol a fyddai'n deillio o unrhyw benderfyniad a wnaed i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i nifer fawr o lysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn fwy parod i dderbyn y gallu i reoli'r effeithiau ar lefel y Llys Apêl yn hytrach na lefel yr Uchel Lys.

**Y Dull Gweithredu**

Hanfod yr ymgynghoriad hwn oedd y cwestiwn a ddylai mwy o lysoedd a thribiwnlysoedd allu gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Mae'r Senedd eisoes wedi ystyried ac ateb y cwestiwn a ddylai llys allu gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Drwy basio Deddfau 2018 ac 2020 yn eu trefn, mae'r Senedd wedi nodi'n glir ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol i alluogi rhai llysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, ac mae eisoes wedi cytuno y dylai o leiaf Goruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban allu gwneud hynny.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod safbwyntiau'r ymatebwyr i fod yn ofalus ac ystyried yr effeithiau posibl y byddai ymgyfreithwyr yn ceisio perswadio llysoedd i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn ei gael efallai ar sicrwydd a hyder yn y gyfraith. Mae'n cydnabod bod angen cydbwyso'r risg hwn yn erbyn y risg y byddai achosion, fel y mae pethau ar hyn o bryd, a fyddai efallai yn dadlau o blaid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, yn cymryd gormod o amser i'w ystyried gan arwain at "ffosileiddio" ein cyfraith, a'r risg nad yw ein cyfraith yn esblygu i adlewyrchu statws newydd y DU ar ôl i ni adael yr UE.

Er bod y Llywodraeth yn cydnabod nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi ymestyn y gallu i wyro oddi wrth gyfraith yr UE a gedwir i fwy o lysoedd a thribiwnlysoedd, mae hefyd yn nodi bod rhywfaint o'r gwrthwynebiad hwnnw o ganlyniad i wrthwynebiad mewn egwyddor i'r llysoedd allu dod i benderfyniad o'r fath o gwbl – egwyddor nad oedd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried bod nifer o ymatebwyr, ac yn benodol yr ymgyngoreion statudol, wedi adnabod manteision positif i ymestyn y pŵer hwn, yn benodol i Oruchaf Lys y DU o ran ei allu i wrando achosion o'r fath yn fwy amserol, a'r cymorth y byddai ystyriaeth flaenorol i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE ar lefel y Llys Apêl yn ei ddarparu.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno y bydd ymestyn y pŵer i lysoedd ychwanegol yn lleihau'r pwysau ar Oruchaf Lys y DU. Mae Llywydd Goruchaf Lys y DU yn cydnabod y byddai "*cyfran o'r achosion...yn debygol o ddod i Oruchaf Lys y DU ar apêl, ond byddai'r rhif yn debygol o fod llawer llai na phetai Goruchaf Lys y DU fyddai'r unig opsiwn."* Mae'r Llywodraeth yn eithriadol o ymwybodol o'r effaith ar niferoedd achosion ac amseroldeb yn Oruchaf Lys y DU a fydd yn gorfod cydbwyso'r achosion ychwanegol hyn ochr yn ochr â

gwaith arall y Llys. Mae gan Oruchaf Lys y DU 12 ynad sydd yn eistedd ar Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor ac yng Ngoruchaf Lys y DU. Ystyriwn, pe na bai'r pŵer yn cael ei ymestyn i gynnwys llysoedd ychwanegol, gallai Goruchaf Lys y DU fod mewn sefyllfa ei fod yn methu â dod i benderfyniad amserol ynghylch achosion o'r fath oherwydd cynnydd yn y llwyth gwaith. Gallai'r oedi hwn wrth benderfynu achosion yn ei hun arwain at ansicrwydd cyfreithiol wrth i bartïon yr achos, a'r rhai hynny sydd â diddordeb yn yr achos, orfod aros am yn hirach am benderfyniad terfynol a fyddai'n darparu ffordd sicr ymlaen.

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y dadleuon hyn yn eithriadol o argyhoeddiadol, a hynny o ran eu ffynhonnell, a chyd-destun y prif amcan o alluogi'r llysoedd i ystyried y cwestiynau hyn yn amserol.

**Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymarfer y pŵer i alluogi mwy o lysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.**

Ar y cwestiwn ynghylch pa lysoedd ddylai allu wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, mae'r Llywodraeth wedi nodi'r ffafriaeth sylweddol tuag at Opsiwn 1 yn hytrach nag Opsiwn 2 yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae'n nodi bod mwy o fanteision positif, yn enwedig manteision gweithredol o ystyried capasiti cyfyngedig Goruchaf Lys y DU, yn gysylltiedig ag Opsiwn 1. Yn benodol, mae'r gred gref y byddai neilltuo'r pŵer i lysoedd apeliadol ar y lefel hon yn ddarbwyllol o ran y byddai'n golygu llai o ansicrwydd cyfreithiol na fyddai wedi bod petai'r pŵer yn cael ei ymestyn yn ehangach, gan y byddai llai o risg o ddargyfeiredd o ran cyfraith achosion yr UE a gedwir, a byddai'r gyfraith yn sefydlogi'n gyflymach. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y byddai ymestyn y pŵer ymhellach i lefel yr Uchel Lys yn cynyddu'r ansicrwydd cyfreithiol a dargyfeiredd mewn gwneud penderfyniadau yn sylweddol, a byddai hyn yn annog partïon i "siopa o gwmpas" i ddod o hyd i'r awdurdodaeth fyddai'n fwyaf tebygol o ddod i ganlyniad ffafriol ynghylch eu mater.

Ar gyfer Opsiwn 2, y brif fantais a adnabuwyd oedd y byddai llys ar y lefel hon yn darparu gwell mynediad at gyfiawnder gan fod modd i bartïon gael mynediad at lys is yn haws a dim ond ychydig iawn o bartïon all fforddio apelio yn erbyn penderfyniad i'r Llys Apêl. I'r gwrthwyneb, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y posibilrwydd uwch sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn o greu nifer fawr o achosion lliniaru yn cynyddu'r risg o danseilio mynediad at gyfiawnder os bydd ymgyfreithwyr yn cael dyfarniadau sy'n gwrthdaro a gallu cyfyngedig i apelio i lys uwch i gael canlyniad sy'n fwy sicr mewn awdurdodaeth benodol.

Er y gellir dadlau y gellir cyflawni y nod polisi o benderfyniadau ar p'un a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn gallu cael eu gwneud yn fwy amserol gydag Opsiwn 2, mae'r Llywodraeth o'r farn bod y risgiau a adnabuwyd yn drech ar hyn.

Rydym hefyd wedi ystyried ein bod mewn sefyllfa ddigynsail a newydd gan nad oes Aelod-wladwriaeth arall erioed wedi gadael yr UE o'r blaen. Mae'r materion sy'n ymwneud â

chyfraith yr UE a gedwir a gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir felly yn faes cyfraith cymhleth ac mae’r Llywodraeth yn ystyriol o’r risg ddigynsail o ddargyfeiredd rhwng awdurdodaethau’r DU. Mae effeithiau'r dargyfeiriad posibl hwn yn cael eu lliniaru trwy gyfyngu’r pŵer i lefel y Llys Apêl oherwydd y byddai’n rhwymo ei hun a’r llysoedd is yn ogystal â dyfarniadau ar y lefel hon bod y llys yn berswadiol ar draws tair system gyfreithiol y DU.

Rydym wedi ystyried y pwyntiau a wnaed yn yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad o safbwynt y byddai efallai yn well i faterion o’r fath gael eu hystyried gan banel o farnwyr ar lefel y Llys Apêl gan y byddent wedyn yn ystyried y materion gyda’i gilydd cyn dod i benderfyniad, yn hytrach na bod un barnwr ar lefel yr Uchel lys yn ystyried y materion i ddechrau, ac rydym yn cytuno bod ystyried y materion ar lefel llys apêl yn well.

Mae’r Llywodraeth felly wedi penderfynu y dylid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir gan ddilyn Opsiwn 1 yn yr ymgynghoriad – sef ymestyn y pŵer i’r Llys Apêl a llysoedd cyfatebol ar draws y DU.

---

**Y LLYSOEDD SYDD O FEWN CWMPAS OPSIWN 1 AC OPSIWN 2**

Roedd cwestiynau 4 – 6 yn yr ymgynghoriad yn gwahodd safbwyntiau ar ba lysoedd sydd o fewn cwmpas y ddau opsiwn a oedd yn sail i’r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 4: Os bydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn cael ei ymestyn i’r Llys Apêl a’i lysoedd cyfatebol, ydych chi’n cytuno bod y rhestr isod yn cynnwys yr holl lysoedd perthnasol?**

- **i. Llys Apêl Cymru a Lloegr;**
- **ii. Llys Apêl y Llys Milwrol;**
- **iii. Llys Apêl Gogledd Iwerddon;**
- **iv. Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl mewn perthynas â mater yn ymwneud a chydnawsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli; a**
- **v. Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban.**

**Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 34 | 45% |
| Nac ydw | 2 | 3% |
| Dim sylwadau | 37 | 49% |
| Aneglur | 2 | 3% |

**Cwestiwn 5: Os bydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn cael ei ymestyn i'r Uchel Lys a'i lysoedd cyfatebol, ydych chi'n cytuno bod y rhestr isod o lysoedd yn cynnwys yr holl lysoedd perthnasol?**

i. **Uchel Lys Cymru a Lloegr;**
ii. **Tŷ Allanol Llys y Sesiwn yn yr Alban;**
iii. **Llys Apêl y Siryf yn yr Alban;**
iv. **Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban sy'n eistedd fel y llys gwrandawiad cyntaf; a'r**
v. **Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon.**

**Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 20 | 27% |
| Nac ydw | 17 | 23% |
| Dim sylwadau | 34 | 45% |
| Aneglur | 4 | 5% |

**Cwestiwn 6: O ran y naill opsiwn neu'r llall, a ddylid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd neu dribiwnlysoedd eraill? Os dylid, ym mha amgylchiadau y dylai hynny ddigwydd?**

**Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Dylid | 10 | 13% |
| Na ddylid | 35 | 47% |
| Dim sylwadau | 28 | 37% |
| Aneglur | 2 | 3% |

**Y rhai hynny a atebodd 'dylid':**
Ar gyfer Opsiwn 1:
- Llys Deisebau Etholiadol (Yr Alban);
- Llys Apêl Cofrestriadau (Yr Alban);
- Llys Apêl Prisio Tiroedd (Yr Alban).

Ar gyfer Opsiwn 2:
- Uwch Dribiwnlys;
- Tribiwnlys Apeliadau Cystadlu;
- Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth;
- Llys Adeiladwaith a Thechnoleg;
- Llys Menter Eiddo Deallusol;

- Llys Tiroedd yr Alban (Yr Alban);
- Llys y Siryf (Yr Alban);
- Person Penodedig.

**Lefel y Llys Apêl**

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno bod y rhestr o lysoedd a nodwyd ar gyfer cwestiwn 4 yn cynnwys yr holl lysoedd ar lefel y Llys Apêl.

Wrth benderfynu ar "lysoedd cyfatebol ar draws y DU", mae'r Llywodraeth yn ystyried mai'r prif gwestiwn i ofyn ydi p'un a yw penderfyniadau llys penodol yn rhwym ar y llysoedd oddi tanodd a llysoedd eraill ar yr un lefel oni bai bod y prawf ar gyfer gwyro oddi wrth eu cyfraith achos yn berthnasol. O ddefnyddio'r diffiniad hwn, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod y llysoedd a restrwyd uchod yn disgyn o fewn cwmpas estyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ar lefel y Llys Apêl.

Fodd bynnag, nodwn fod yr Arglwydd Lywydd wedi dweud *"Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob llys apêl terfynol arall yn Yr Alban. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y Llys Apêl Prisio Tiroedd, Llys Apêl Cofrestriadau a'r Llys Deisebau Etholiadol."* Cefnogwyd y sylw hwn gan ymateb aelod o'r farnwriaeth.

Yn y cyfnod rhwng y 1af o Ionawr 2017 a'r 19eg o Awst 2020, mae data gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Yr Alban yn dangos bod 8 apêl prisio tiroedd a 0 apêl deisebau etholiadol neu gofrestriadau wedi'u cofnodi. Er gwaetha'r nifer fach o achosion sydd wedi bod gerbron y llysoedd hyn, mae'r Llywodraeth yn nodi bod y Llys Apêl Prisio Tiroedd a'r Llys Apêl Cofrestriadau yn llysoedd arbenigol yn eu hawdurdodaethau unigol ac maent yn cael eu rhestru ar wahân i Lys y Sesiwn Yr Alban yn Adran (6) Deddf y Farnwriaeth a'r Llysoedd (Yr Alban) 2008. Mae'r llysoedd hyn yn llysoedd apêl terfynol yn Yr Alban sydd, at ei gilydd, yn eistedd ar yr un lefel â Thŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban. Nid oes llwybr awtomatig i apelio i Oruchaf Lys y DU.

**Mae'r Llywodraeth felly yn credu y dylid ychwanegu'r Llys Apêl Prisio Tiroedd a'r Llys Apêl Cofrestriadau yn yr Alban at y rhestr o lysoedd a ystyrir i fod "cyfwerth" â Llys Apêl Cymru a Lloegr.**

**Lefel yr Uchel Lys**

Wrth gyfeirio at y sylwadau a oedd yn cefnogi'r ymatebion a gafwyd, dywedodd yr Arglwydd Lywydd "*nid oes rheswm rhesymegol dros eithrio rhai eraill megis Llys Tiroedd Yr Alban, yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Apeliadau Cystadlu a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth.*"

Cefnogwyd y farn hon gan ymateb aelod o'r farnwriaeth i'r ymgynghoriad a wnaeth hefyd gwestiynu pam bod Llys Tiroedd Yr Alban wedi cael ei hepgor o'r rhestr. Dywedodd aelod

o'r cyhoedd: "*yn fy marn i, nid oes rheswm cyfiawn dros gynnwys Tŷ Allanol Llys y Sesiwn ar y rhestr hon ond i beidio â chynnwys Llys y Siryf.*" Mi wnaeth ymateb arall gwestiynu pam bod Llys Apêl y Siryf ar y rhestr oherwydd nid yw'r llys hwn gyfwerth â'r Uchel Lys.

Cafwyd ymateb arall a awgrymodd y dylid cynnwys y Llys Adeiladwaith a Thechnoleg (a llysoedd tebyg eraill) o fewn cwmpas yr opsiwn hwn. Dadleuwyd hyn ar y sail bod natur arbenigol rhai awdurdodaethau, er enghraifft cyfraith amgylcheddol, angen panel o farnwyr arbenigol i ystyried y materion a bod gan o leiaf un aelod o'r panel arbenigedd priodol yn y materion sy'n sail i'r achos. Dywedwyd o ran Opsiwn 2, dylid sefydlu mwy o lysoedd gyda phanelau arbenigol i ddelio â'r math hwn o faterion a dylai'r llysoedd hyn wedyn gael eu hystyried fel bod yn llysoedd ar lefel yr Uchel Lys.

Llys terfynol a awgrymwyd gan un ymatebydd i'w gynnwys ar y rhestr oedd y Llys Menter Eiddo Deallusol sy'n eistedd o fewn Adran Siawnsri'r Uchel Lys.

Dadleuodd un ymatebydd y dylid cynnwys pob tribiwnlys statudol, tra awgrymodd ymatebydd arall y dylid cynnwys y tribiwnlysoedd diwydiannol.

Dadleuodd un aelod o'r cyhoedd y dylai pob llys a thribiwnlys, heblaw pob llys ynadon, fod yng nghwmpas Opsiwn 2.

**Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr ymatebion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth wedi dod i unrhyw gasgliadau ynghylch y pwynt hwn oherwydd bwriad y Llywodraeth yw ymestyn y pŵer i wyro oedd wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lefel y Llys Apêl.**

---

## YR ATHRAWIAETH GYNSAIL

Roedd cwestiwn 7 ac 8 yn gwahodd safbwyntiau ar ddefnyddio'r athrawiaeth gynsail wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

**Cwestiwn 7: Ydych chi o'r farn y dylai'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n cael y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, gael caniatâd i wyro oddi wrth gyfraith achosion domestig a gedwir sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gedwir? Os ydych, ym mha amgylchiadau y dylai hynny ddigwydd? Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 12 | 16% |
| Nac ydw | 31 | 41% |
| Dim sylwadau | 21 | 28% |
| Aneglur | 11 | 15% |

Nid oedd y mwyafrif o’r rhai hynny a wnaeth ymateb ystyried y dylid caniatáu i’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd y byddai’r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE yn cael ei ymestyn iddynt wyro oddi wrth gyfraith achosion domestig sy’n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gedwir.

Dadleuodd nifer y dylai’r rheolau presennol sy’n ymwneud â’r athrawiaeth gynsail wastad fod yn berthnasol. Dadleuwyd os ydyw’n dod yn hawdd i lysoedd is wyro oddi wrth rhesymeg y llysoedd uwch, yna bydd sicrwydd cyfreithiol a natur ragweladwy yn y fantol ac fe allai hyn gael effaith anfwriadol ar y busnes a’r cyhoedd.

Roedd Cymdeithas y Gyfraith y credu *“y gallai hyn arwain at greu cynseiliau sy’n gwrthdaro o fewn y system farnwrol ac ansicrwydd cyfreithiol sylweddol”.*

Cyfeiriodd Cyngor y Bar ar gymhlethdod y cwestiwn: *“Gall llys is a wahoddir i ystyried y posibilrwydd o wyro oddi wrth egwyddor Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd a osodwyd mewn ffordd benodol ddarganfod – yn wir bydd yn darganfod yn aml – bod yr egwyddor wedi’i ddefnyddio neu ei ymestyn mewn penderfyniadau dilynol llysoedd y DU y mae eu penderfyniad yn rhwym iddo. Mewn achos o’r fath, mae gwyro oddi wrth cynsail Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn ddibwrpas oni bai bod gan y llys is bŵer i wyro oddi wrth cynsail domestig hefyd – ond byddai pŵer i wyro oddi wrth cynseiliau a osodwyd gan uchel lysoedd (neu, yn achos y Llys Apêl, ei ddyfarniadau ei hun) yn effeithio’n sylweddol y system gynsail y mae sicrwydd cyfreithiol yn dibynnu arno mewn system cyfraith gwlad.”*

Dadleuodd rhai unwaith y bydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir wedi cael ei ymestyn i gynnwys llysoedd a thribiwnlysoedd eraill, mae’n rhesymegol eu bod hefyd yn gallu gwyro oddi wrth gyfraith achosion domestig a gedwir sy’n berthnasol i gyfraith achosion yr UE a gedwir. Dywedodd aelod o’r farnwriaeth “*ni ellir gwahanu cyfraith achosion domestig yn hawdd oddi wrth gyfraith achosion yr UE. Os gellir ail-agor un math o gyfraith achos, dylid agor y ddau, yn amodol yn unig ar y prawf berthnasol.”* Cefnogwyd hyn gan Gymdeithas y Gyfraith Birmingham a Browne Jackson LLP a ystyriodd bod y gwahaniaeth rhwng cyfraith achosion yr UE a gedwir a chyfraith achosion domestig a gedwir yn artiffisial.

Ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd, mae’r Llywodraeth yn ystyriol nad oedd y mwyafrif o’r rhai hynny a wnaeth ateb y cwestiwn yn cefnogi newid, a bod risg o greu ansicrwydd cyfreithiol; mae felly **wedi penderfynu nad yw’n ddymunol i lysoedd sydd â’r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir allu hefyd gwyro oddi wrth gyfraith achosion domestig a gedwir ac y dylai datblygiad cyfraith o’r fath gael ei lywodraethu gan y rheolau cynsail presennol.**

**Cwestiwn 8: Ydych chi’n cytuno y dylai’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd perthnasol sydd wedi cael y pŵer, fod yn rhwym wrth benderfyniadau Goruchaf Lys y DU, Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban a’r Llys Apêl a’i lysoedd cyfatebol ar draws y DU, pan fydd eisoes wedi ystyried y cwestiwn a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ar ôl i’r Cyfnod Pontio ddod i ben, yn ôl trefn arferol cynsail? Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 51 | 68% |
| Nac ydw | 0 | 0% |
| Dim sylwadau | 24 | 32% |

Roedd pawb a wnaeth ateb y cwestiwn hwn yn cytuno nad os rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros wyro oddi wrth gweithrediad arferol yr athrawiaeth gynsail. Mi wnaethant awgrymu y byddai gwneud fel arall yn tanseilio yn sylweddol y sicrwydd cyfreithiol, yn cynyddu’r risg o anghysondebau, yn achosi ansicrwydd yn natblygiad y gyfraith ac yn achosi risg diangen i ddargyfeiredd.

Mi wnaeth yr ymgyngoreion adnabod problem gyda dargyfeiredd ar draws pob awdurdodaeth yn y DU petai’r athrawiaeth gynsail yn cael ei diwygio, a byddai hyn yn cynyddu’r risg o ddargyfeiredd. Rhoddodd Llywydd Goruchaf Lys y DU enghraifft o beth fyddai’n edrych fel ar lefel y Llys Apêl: “*Petai Llys Apêl Cymru a Lloegr yn dewis gwyro oddi wrth penderfyniad Goruchaf Lys y DU yn ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gedwir, byddai’r penderfyniad i wyro ond yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Byddai penderfyniad gwreiddiol Goruchaf Lys y DU yn parhau i fod yn rhwymol yn Yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, cyn belled ei fod yn berthnasol yn yr awdurdodaethau hynny, oni bai a hyd nes bod y llysoedd cyfatebol (h.y. Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn a’r Llys Apêl yng Ngogledd Iwerddon) hefyd yn penderfynu gwyro oddi wrtho.*”

**Y Dull Gweithredu**

Mae’r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus p’un a ddylai’r Rheoliadau hyn alluogi llysoedd i wyro oddi wrth weithrediad arferol cynsail i alluogi mwy o ddargyfeiredd hyblyg oddi wrth penderfyniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Mae pendantrwydd yr ymatebwyr a wnaeth ymateb i’r ymgynghoriad wedi perswadio’r Llywodraeth y byddai addasu’r cynsail yn achosi ansicrwydd cyfreithiol a dryswch diangen.

**Am y rhesymau hyn, mae’r Llywodraeth wedi dod i’r casgliad nad oes angen newid yr athrawiaeth gynsail sydd wedi’i hen sefydlu ac sy’n ddealladwy ac yn eglur.**

## Y PRAWF I’W DDEFNYDDIO

Roedd cwestiwn 9 a 10 yn gwahodd safbwyntiau ar pa brawf y dylid ei ddefnyddio wrth ystyried p’un a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir a p’un a oedd angen cynnwys unrhyw ystyriaethau fel rhan o’r prawf hwnnw.

**Cwestiwn 9: Ydych chi’n cytuno:**

**a) mai’r prawf y dylai llysoedd neu dribiwnlysoedd ychwanegol ei ddefnyddio, yw’r prawf y dylai Goruchaf Lys y DU ei ddefnyddio wrth benderfynu a ddylai wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun?**

**b) y byddai’r prawf hwn yn hawdd ei ddeall, ac y byddai’n hawdd ei roi ar waith ar draws yr awdurdodaethau drwy gyfeirio at y gyfraith achosion berthnasol?**

**Rhowch resymau dros eich atebion. Os nad ydych chi’n cytuno, pa brawf arall rydych chi’n credu y dylid ei ddefnyddio? Rhowch resymau dros eich ateb.**

### Cwestiwn 9a

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 41 | 55% |
| Nac ydw | 22 | 29% |
| Dim sylwadau | 12 | 16% |

### Cwestiwn 9b

| | | |
|---|---|---|
| Ydw<br>Ydw, ond dylid datblygu’r prawf ymhellach | 29<br>**8 (allan o 29)** | 39%<br>**28% (o 29)** |
| Nac ydw | 20 | 27% |
| Dim sylwadau | 26 | 35% |

### Y prawf i’w ddefnyddio

Mi wnaeth mwyafrif o’r ymatebwyr (55%) gytuno mai prawf Goruchaf Lys y DU y dylai’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd ychwanegol ei ddefnyddio wrth benderfynu p’un a ddylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun, ond mi wnaeth 29% anghytuno.

Mi wnaeth 39% o’r holl ymatebwyr hefyd gytuno bod y prawf hwn yn hawdd i’w ddeall a bod modd ei ddefnyddio ar draws pob awdurdodaeth drwy gyfeirio at y gyfraith achosion berthnasol.

Dywedodd Llywydd Goruchaf Lys y DU “*mae’r prawf wedi’i hen sefydlu ac mae yna lawer o arweiniad barnwrol wedi’i baratoi amdano.*” Roedd Arglwydd Brif Ustus Gogledd

Iwerddon hefyd yn credu bod "*modd deall hanfod y prawf hwn yn hawdd a gellir i ddefnyddio ar draws yr awdurdodaethau gan gyfeirio at y gyfraith achosion perthnasol.*" Roedd nifer o ymarferwyr yn cefnogi'r sylwadau hyn, gan gynnwys Cyngor y Bar a ddywedodd "*Nid ydym yn gweld bod angen addasu prawf y Goruchaf Lys sydd wedi'i hen sefydlu, gan ei fod yn ddigon hyblyg i gymryd ystyriaeth lawn o'r ystyriaethau hynny (ac ystyriaethau perthnasol eraill, megis yr angen i osgoi, cyn gymaint â phosibl, newidiadau cyflym ac ôl-weithredol yn y gyfraith sefydledig, a'r angen i osgoi honiadau ynghylch y farnwriaeth yn rhag-broffwydo penderfyniadau'r corff deddfwriaethol)*".

Roedd Cymdeithas y Bar - Cyfraith Weinyddol yn anghytuno â defnyddio prawf Goruchaf Lys y DU oherwydd nad yw'r prawf yn ddigon clir i'w ddefnyddio'n hawdd. Roeddynt yn credu "*y dylid gosod trothwy uwch a fyddai'n gorfodi'r Llys Apêl neu Uchel Lys i fod yn fodlon nad yw [sic] Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol mwyach ar gyfer ei ddefnyddio ym mhob maes cyfraith achosion yr UE a gedwir*". Roedd Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol yn cefnogi hyn ac mi ddywedont "*Bydd defnyddio prawf gwahanol i'r un sydd eisoes wedi'i sefydlu yn awdurdodaeth unigol y llysoedd yn creu ansicrwydd, gan ganiatáu i benderfyniadau achosion gwahanol fynd i apêl yn ddibynnol ar y materion sydd i'w hystyried.*" Roedd Grŵp Ewropeaidd y Bar a Chymdeithas Bar y Siawnsri ill dau yn anghytuno bod prawf Goruchaf Lys y DU yn ddigon clir a dealladwy i'r llysoedd islaw Goruchaf Lys y DU allu ei ddehongli a'i ddeall. Credai Clifford Chance LLP y dylai'r prawf a ddefnyddir gan y llysoedd is fod yn fwy llym na'r un a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU.

**Y Dull Gweithredu**

Rydym wedi ystyried a chydbwyso'r safbwyntiau a fynegwyd yn ofalus. Noda'r Llywodraeth bod y mwyafrif o blaid mabwysiadu'r prawf y byddai Goruchaf Lys y DU yn ei ddefnyddio wrth benderfynu p'un a ddylai wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun, gan ei fod yn brawf pwrpasol, yn hawdd i'w ddeall ac y gellir ei ddefnyddio heb orfod cael arweiniad pellach.

Mae'r Llywodraeth yn anghytuno â safbwyntiau rhai ymgyngoreion y dylai fod yna brawf pellach neu brawf mwy llym ar gyfer y llysoedd y mae'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn cael ei ymestyn iddo, gan y byddai cyflwyno prawf newydd yn cynyddu'r risg o ansicrwydd cyfreithiol tra byddai'r prawf hwn yn sefydlu ei hun. Mae'n credu y byddai defnyddio prawf gwahanol ar lefel y Llys Apêl yn gallu achosi ansicrwydd o ran pa brawf i'w ddefnyddio pan fydd mater yn destun apêl yn Oruchaf Lys y DU.

Bydd defnyddio'r un prawf a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU yn helpu i hyrwyddo cysondeb a sicrwydd i'r graddau y byddai'n bosibl i gyflawni hyn. Credwn fod gwerth defnyddio'r un prawf gan y llysoedd y bydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn cael ei ymestyn iddynt, oherwydd petai apêl arall yn cael ei chyflwyno i Oruchaf Lys y DU, gall y llys hwnnw ddarparu rhagor o arweiniad ar ddefnyddio'r prawf, os bydd angen, a fyddai wedyn yn rhwym ar lysoedd lefel y Llys Apêl ar draws y DU. Nodwn

hefyd bod yna lawer iawn o gyfraith achosion sy'n cefnogi prawf Goruchaf Lys y DU sydd wedi datblygu dros amser i sicrhau bod y llysoedd yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau gwahanol a pholisïau modern.

**Felly, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y dylai'r llysoedd ychwanegol ddefnyddio'r un prawf ac a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu p'un a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.**

**Cwestiwn 10**: **Yn eich barn chi, a oes ffactorau y dylid eu cynnwys mewn rhestr o ystyriaethau a fydd yn cael sylw gan Oruchaf Lys y DU, Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban a llysoedd a thribiwnlysoedd eraill sydd wedi cael y pŵer i wyro, wrth iddynt benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir? Rhowch resymau dros eich ateb.**

| | | |
|---|---|---|
| Oes | 10 | 13% |
| Nac oes | 40 | 53% |
| Dim sylwadau | 25 | 33% |

**Rhestr o'r ystyriaethau**

Nid oedd mwyafrif o'r ymatebwyr (53%) yn credu y dylid cael rhestr o ystyriaethau i'r llysoedd eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Dim ond 13% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn credu y dylid cynnwys ystyriaethau fel rhan o'r prawf. Roedd y rhain yn cynnwys:

- a yw'r deddfwrfeydd eisoes wedi ceisio unioni diffygion wrth gymhwyso cyfraith yr UE yn y maes hwn;
- a fyddai gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn diogelu neu'n tanseilio sicrwydd cyfreithiol ac eglurder;
- a fyddai gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn tanseilio egwyddorion gyfraith achosion presennol a sefydlog Lloegr;
- a yw'r gyfraith UE dan sylw yn destun newid deddfwriaethol yn y dyfodol agos;
- egwyddorion polisi cyhoeddus sy'n berthnasol yn y DU;
- effaith gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ar y maes dan sylw;
- y graddau y mae gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn effeithio ar warchod hawliau sylfaenol;
- y graddau y byddai gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn torri egwyddorion domestig dadansoddiadau statudol;
- yr effaith y gallai gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ei gael ar fasnach a busnes DU-UE;
- a ydyw er lles cyfiawnder i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir;

- ers pryd mae'r cynsail wedi bodoli ac i ba raddau y byddai'n cael ei ddefnyddio gydag achosion yn y dyfodol.

Fodd bynnag, credai'r mwyafrif o ymatebwyr nad oedd angen rhestr bellach o ystyriaethau (naill ar gyfer Goruchaf Lys y DU, Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban, neu lysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol). Nodwyd bod Datganiad Ymarfer Tŷ'r Arglwyddi wedi bod yn weithredol ers 1966 a'i fod wedi'i ddiweddaru dros amser i adlewyrchu gwahanol amgylchiadau. Mae yna gyfoeth o gyfraith achosion sy'n tanseilio dehongliad Goruchaf Lys y DU o'r prawf ac roedd pryder y byddai ceisio naill ai cyfundrefnu'r prawf mewn rhyw ffordd neu nodi unrhyw ystyriaethau yn arwain at ddull gweithredu llym ac anhyblyg a fyddai mewn perygl o danseilio'r nod o ddatblygiad amserol o gyfraith y DU. Roedd pryder hefyd y byddai cyflwyno prawf arall neu restr o ffactorau yn dwysau'r ansicrwydd cyfreithiol gan y byddai dadlau ynghylch dehongli'r ffactorau a allai gymryd amser i'w datrys mewn apêl.

**Y Dull Gweithredu**

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus p'un a yw'n briodol i nodi ar sail y Rheoliadau unrhyw ystyriaethau sy'n berthnasol i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd o ran penderfynu p'un a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Yn benodol, rydym wedi nodi bod y prawf sydd wedi'i gynnwys yn Natganiad Ymarfer Tŷ'r Arglwyddi wedi bodoli ers 1966 a bod llawer iawn o gyfarwyddyd barnwrol wedi'i gynhyrchu dros y blynyddoedd ar ei ddefnyddio. Fel dywedodd Llywydd Goruchaf Lys y DU: "*Ar yr un pryd â rhoi pwyslais ar yr angen am sicrwydd mewn cyfraith gwlad, mae'r prawf yn darparu'r lefel briodol o hyblygrwydd.*" Mae'r Datganiad Ymarfer wedi bodoli ers 1966 heb unrhyw newid statudol sydd wedi golygu ei fod wedi gallu cael ei addasu dros amser er mwyn iddo barhau i fod yn addas i bwrpas.

Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y byddai ceisio cyfundrefnu'r cyfoeth o gyfraith achosion sy'n bodoli ar y pwynt hwn yn ddi-fudd ac yn wrthgynhyrchiol i'r nod o gynnal sicrwydd cyfreithiol gan y byddai ystyr penodol a chymhwysiad y ffactorau angen penderfyniad barnwrol, ac yn fwyaf tebyg drwy apêl i Oruchaf Lys y DU. Credwn fod prawf Goruchaf Lys y DU yn cael ei gefnogi gan gyfoeth o gyfraith achosion sefydlog sy'n cydnabod natur llyfn ffactorau a allai fod yn berthnasol mewn unrhyw achos a natur newidiol ystyriaethau polisi cyhoeddus dros amser.

**Am y rhesymau hyn felly, ni fydd y Llywodraeth yn cynnwys yn y Rheoliadau rhestr o ystyriaethau i'r llysoedd eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.**

**ASESU’R EFFEITHIAU**

Roedd cwestiwn 11 yn gwahodd safbwyntiau gan ymatebwyr ar effeithiau’r ddau opsiwn ar weinyddu cyfiawnder a sut mae ein llysoedd a’n tribiwnlysoedd yn gweithredu.

**Cwestiwn 11a) Ydych chi o'r farn y byddai’r newidiadau a gynigir yn debygol o gael effaith ar nifer yr achosion sy’n cychwyn yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU? Dywedwch ymhle y byddai hyn yn digwydd yn eich barn chi, a pham.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 32 | 43% |
| Nac ydw | 7 | 9% |
| Ansicr | 4 | 5% |
| O bosib | 11 | 15% |
| Dim sylwadau | 21 | 28% |

**Cwestiwn 11b) Ydych chi o'r farn y byddai’r newidiadau a gynigir yn debygol o gael effaith ar y math o achosion sy’n cychwyn yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU? Dywedwch ymhle y byddai hyn yn digwydd yn eich barn chi, a pham. c**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 30 | 40% |
| Nac ydw | 7 | 9% |
| Ansicr | 4 | 5% |
| O bosib | 6 | 8% |
| Dim sylwadau | 28 | 37% |

**Cwestiwn 11 c) Ydych chi o'r farn y byddai’r newidiadau a gynigir yn debygol o gael mwy o effaith ar rannau penodol o'r system gyfiawnder, neu ar ei defnyddwyr? Dywedwch ymhle y gallai hyn ddigwydd yn eich barn chi, a pham.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 30 | 40% |
| Nac ydw | 8 | 11% |
| Ansicr | 6 | 8% |
| Dim sylwadau | 31 | 41% |

**Cwestiwn 11 d) Ydych chi o'r farn y byddai’r newidiadau a gynigir yn cael mwy o effaith ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Dywedwch ymhle y gallai hyn ddigwydd yn eich barn chi, a pham.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 15 | 20% |
| Nac ydw | 7 | 9% |
| Ansicr | 2 | 3% |
| O bosib | 12 | 16% |
| Dim sylwadau | 39 | 52% |

Mae llawer wedi awgrymu y byddai ymestyn y pŵer i lysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol yn golygu o bosib cynnydd mewn ymgyfreitha. Ehanga’n byd fydd cwmpas yr estyniad, mwya’n byd fydd yr effeithiau. Dywedodd Herbert Smith Freehills LLP “*Mwya’n byd y caiff y pŵer ei ymestyn, y mwyaf yw'r potensial sydd ar gyfer mwy o ymgyfreitha gan y byddai’n arwain at ddadleuon newydd y gall ymgyfreithwyr geisio eu defnyddio. Mae rhoi’r pŵer hwn i lysoedd ar lefel y Llys Apêl ac uwch, fel Opsiwn 1 o bosib yn cynnig arf ataliol yn erbyn ymgyfreitha blinderus/annheilwng ar lefel yr Uchel Lys/tribiwnlys.*” Roedd Cymdeithas Bar y Siawnsri yn cefnogi hyn.

Fodd bynnag, dylid nodi bod yr ymatebwyr hefyd wedi datgan yn eu hymateb i gwestiwn 2, nifer o fanteision positif o gyfyngu’r pŵer i lefel y Llys Apêl, ac yn benodol rheoli’r galw gweithredol yng Ngoruchaf Lys y DU ynghyd â manteision deialog barnwrol.

Cafodd yr ymatebwyr anhawster i ddarparu asesiad clir o’r math o ymgyfreitha a fyddai’n gallu cael ei effeithio yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU. Tybiwyd mewn nifer o’r ymatebion y byddai’r effeithiau mwyaf i’w gweld yn y meysydd hynny sy’n dibynnu’n fawr ar gyfraith UE, er enghraifft lle mae nifer o Gyfarwyddebau UE a Rheoliadau wedi’u llunio. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at feysydd cyfraith y gallai hyn effeithio arnynt fel: cyfraith amgylcheddol, cyfraith cyflogaeth, cystadleuaeth, anghydfodau masnach a gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn credu ei fod wastad yn anodd proffwydo ymddygiad ymgyfreitha. Roedd nifer fawr o’r ymatebwyr yn credu y byddai yna gynnydd mewn ymgyfreitha oherwydd mwy o gyfleoedd i gael mynediad at lysoedd is petai’r pŵer yn cael ei ymestyn i lysoedd ychwanegol islaw lefel Goruchaf Lys y DU. Er ei fod yn anochel y bydd unrhyw gynnydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y llysoedd, petai cynnydd sylweddol yn y nifer o achosion, byddai hyn yn arwain at bwysau sylweddol ar draws y system gyfiawnder gyfan wrth iddi ymdrechu i ddelio â’r achosion sydd eisoes yn bodoli a’r llwyth gwaith ychwanegol hwn. Fodd bynnag, tu hwnt i ddisgrifio’r effeithiau hyn yn gyffredinol, dyfalu beth fyddai’r sefyllfa oedd yr ymatebion ac roedd yn anodd meintoli unrhyw fanylion dibynadwy.

**Effeithiau cydraddoldeb**

Ystyriodd 21 o’r ymatebwyr y byddai yna asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn deillio o’r opsiynau y bu i’r Llywodraeth ymgynghori arnynt. Ni allai’r ymatebwyr ddarogan yn union ble a sut fyddai unrhyw effeithiau yn codi. Credai’r ymatebwyr fod yna feysydd cyfraith cyffredinol a allai gael eu heffeithio e.e. cyflogaeth, a fyddai yn ei dro yn rhoi unigolion gyda nodweddion gwarchodedig penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn risg o gael eu heffeithio fwy. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys y rhai hynny y mae’r gyfraith ar absenoldeb tadolaeth neu weithwyr rhan amser (sydd efallai mwy tebygol o fod â nodweddion gwarchodedig) yn effeithio arnynt.

Roedd y meysydd eraill y cyfeiriwyd atynt yn y cwestiwn hwn yn cynnwys y rhai hynny o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o ran cyflogaeth a hawliau dynol. Roedd yr ymatebwyr yn bryderus y gallai penderfyniadau i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir achosi dryswch o ran y dyletswyddau cyfreithiol sy’n berthnasol i bobl â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig gan fod y nifer o achosion y mae cyfraith achosion a deddfwriaeth yr UE wedi dylanwadu arnynt o ran datblygiad nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn anhysbys.

Roedd dau ymatebydd o’r farn na fyddai yna effaith uniongyrchol ar gydraddoldeb yn benodol.

Cytunodd yr ymgyngoreion y byddai yna gynnydd mewn ymgyfreitha o ganlyniad i fwy o gyfleoedd i ymgyfreitha petai’r pŵer yn cael ei ymestyn i lysoedd ychwanegol islaw lefel Goruchaf Lys y DU. Byddai hyn yn rhoi pwysau ar y system gweinyddu cyfiawnder gyfan. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae hyn yn parhau i fod yn ansicr ac mae’n anodd dweud yn iawn er crybwyllwyd y meysydd canlynol; mwy o lwybrau i apêl a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar lysoedd apeliadol, tribiwnlysoedd sydd yn aml yn delio gydag achosion sy’n dibynnu’n fawr ar gyfraith achosion yr UE fel cyfraith amgylcheddol, cyfraith cyflogaeth, cystadleuaeth, anghydfodau masnach a gweithgynhyrchu.

Mae’r Llywodraeth wedi ystyried y dadleuon hyn yn llawn yn yr asesiad effaith a’i asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb. O wneud hynny, mae hefyd wedi datgan bod y DU yn ymrwymedig i ddarparu safonau uchel ac mae wedi arwain y ffordd mewn meysydd fel hawliau gweithwyr a gwarchodaeth amgylcheddol, ac nid oes bwriad i newid hyn ar ôl i ni adael yr UE.

Roedd cwestiwn 12 yn gwahodd yr ymatebwyr i wneud unrhyw sylwadau eraill.

**12. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill rydych eisiau i ni eu hystyried yng nghyswllt yr ymgynghoriad hwn?**

Nid oedd gan y mwyafrif o’r ymgyngoreion (43 ymatebydd) unrhyw sylwadau ychwanegol i’w gwneud tu hwnt i’r rhai hynny a drafodwyd uchod.

Mi wnaeth nifer fechan o ymatebwyr godi’r pwyntiau canlynol; rydym wedi eu trafod yn eu trefn isod:

- Cynnwys Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor i leddfu’r byrdwn ar Oruchaf Lys y DU;
- Effaith Protocol Gogledd Iwerddon;
- Darpariaethau trawsnewidiol;
- Effaith unrhyw Reoliadau ar drafodaethau’r DU gyda’r UE sydd ar y gweill;
- Ôl-weithredu;
- Mecanwaith atgyfeirio / symud achosion o safbwynt y cwestiwn ar wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir; a
- Gallu cyfeirio cwestiwn am gyfraith yr UE a gedwir i’r llysoedd sydd â phŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

### Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor

Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor yw’r llys apêl olaf ar gyfer tiriogaethau tramor y DU, tiriogaethau sy’n ddibynnol ar y Goron ac mae hefyd yn gwasanaethu gwledydd y Gymanwlad sydd wedi cadw’r gallu i apelio i Gyngor Ei Mawrhydi. Mae’r rhesymeg sydd y tu ôl i’r cynnig hwn yn aneglur gan fod Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor yn cynnwys yr un ynadon a’r rhai sy’n eistedd yng Ngoruchaf Lys y DU. Felly, ni fydd rhoi pwerau o’r fath i Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor yn creu rhagor o gapasiti i ddelio â llwyth gwaith cynyddol Goruchaf Lys y DU os na fydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn cael ei ymestyn i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill. Nid yw’r Llywodraeth yn fodlon bod yna unrhyw resymeg argyhoeddiadol dros symud gwaith Goruchaf Lys y DU i Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor.

### Protocol Gogledd Iwerddon

Fel y nodwyd uchod, mae’r pŵer ond yn berthnasol i gyfraith achosion yr UE a gedwir, ni fydd yn effeithio ar gyfraith yr UE na chedwir. Mae hyn yn cynnwys cyfraith UE sy’n ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon ar sail dros dro ac yn amodol ar gydsyniad. Oherwydd bod risg o beth ddargyfeiredd oherwydd gweithrediad y Protocol, mae’r Llywodraeth yn fodlon bod ymestyn y pŵer i lefel y Llys Apêl i sicrhau bod materion o’r fath yn cael eu hystyried gan uwch lysoedd apêl y mae ei gyfarwyddiadau’n rhwym ar y llysoedd islaw yn lliniaru’r dargyfeiredd hwnnw.

**Darpariaethau Trawsnewidiol**

Mae’r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus yr angen am ddarpariaethau trawsnewidiol o safbwynt y Rheoliadau hyn. Yn amlwg, mi fydd yna nifer o achosion sydd ar y gweill ar ddiwedd y Cyfnod Pontio. Nid yw Adran 6 Deddf 2018 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau trawsnewidiol o ran Goruchaf Lys y DU. Mae felly yn bosib i bartïon sydd wrthi’n lliniaru godi materion o’r fath mewn achos sydd gerbron Goruchaf Lys y DU o’r amser y daw’r pŵer hwn i rym. Nid ydyw yn gweld unrhyw gyfiawnhad dros fabwysiadu dull gweithredu gwahanol ar gyfer y llysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol. Yn ein barn ni, mae’n fwy manteisiol i faterion o’r fath gael eu codi’n gyflymach a’u bod yn cael eu penderfynu gan y llysoedd.

**Yr effaith ar y trafodaethau**

Mi wnaeth rhai ymgyngoreion fynegi pryder y byddai ymestyn y pŵer ormod ac yn rhy gyflym effeithio ar drafodaethau presennol y DU gyda’r UE a chais y DU (a chydymffurfiad, os fydd yn llwyddiannus) i ymuno â Chonfensiwn Lugano. Mae’r Llywodraeth yn ystyried bod hon yn ddadl wan a damcaniaethau. Mae trafodaethau’r DU gyda’r UE yn gwbl annibynnol ar unrhyw benderfyniad a wneir gan y llysoedd i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Dan unrhyw amgylchiad, bydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ond yn dod i rym ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ac felly bydd unrhyw drafodaethau wedi dirwyn i ben, a bydd y llysoedd yn ystyrlon o unrhyw rwymedigaethau y mae’n rhaid i’r DU gydymffurfio â nhw fel rhan o’r broses gwneud penderfyniadau.

**Ôl-weithredu**

Mi wnaeth nifer fach o ymatebwyr fynegi pryderon ynghylch effaith y penderfyniad i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ar weithredoedd a hepgoriadau a ddigwyddodd cyn diwedd y Cyfnod Pontio. Nid ydym yn disgwyl i benderfyniad i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir gael gymaint o effaith ôl-weithredol. Er enghraifft, mae’r prawf a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU i benderfynu a ddylai wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun yn lliniaru’r pryder hwn yn eglur. Mae Datganiad Ymarfer 1966 yn nodi *“Yn yr achos hwn byddant yn cadw mewn cof y perygl o darfu'n ôl-weithredol ar y sail yr ymrwymwyd i gontractau, setliadau eiddo a threfniadau cyllidol a hefyd yr angen arbennig am sicrwydd ynghylch y gyfraith droseddol”* ac yn y gorffennol mae Goruchaf Lys y DU wedi bod yn amharod i ymyrryd â disgwyliadau cyfreithlon y rhai hynny a oedd yn dibynnu ar benderfyniad blaenorol.

**Atgyfeiriadau a “symud achosion”**

Roedd dau ymateb yn cynnig model gwahanol i gynnig y Llywodraeth. System atgyfeirio oedd hon o lys is i Oruchaf Lys y DU o ran ystyried a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Byddai dull o’r fath angen deddfwriaeth newydd oherwydd nid yw’r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn yn cynnwys y pŵer i weithredu dull gweithredu o’r

fath. Hyd yn oed petai'r hawl yn bodoli, nid yw'r Llywodraeth yn cytuno bod hwn yn opsiwn gan nad yw'n datrys y mater o alw cynyddol ar Oruchaf Lys y DU. Bydd atgyfeiriadau gan lys is dal angen mewnbwn gan Oruchaf Lys y DU cyn diwedd yr achos a byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw apeliadau ychwanegol i'r llys hwnnw o ganlyniad i ymestyn y pŵer. Mae'n anochel y byddai hyn yn achosi oediadau wrth orfod penderfynu ar apeliadau ac atgyfeiriadau o ran y mater i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir a fyddai yn ei dro yn achosi mwy o ansicrwydd cyfreithiol. Am y rhesymau hyn felly, mae'r Llywodraeth yn gwrthod y model amgen hwn gan nad yw'n weithredol ymarferol.

Roedd yna nifer fach o ymatebwyr a nododd fanteision ymestyn y gallu presennol i symud apeliadau o'r Uchel Lys i Oruchaf Lys y DU; byddai hyn yn caniatáu i achosion gael eu penderfynu yn gyflymach gan ei fod yn dileu'r angen i'r Llys Apêl ystyried y materion yn gyntaf. Fel gyda mecanwaith atgyfeirio, nid yw'r dull gweithredu hwn yn delio â'r materion o gynnydd yn llwyth gwaith Goruchaf Lys y DU ac effeithiau canlyniadol oediadau o'r fath ar sicrwydd cyfreithiol. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cael gwared â'r ddeialog farnwrol rhwng y dau lys apeliadol uchaf, ac mae Llywydd Goruchaf Lys y DU wedi nodi bod hyn yn fantais wrth ddelio ag achosion sy'n ymwneud â materion cymhleth, megis p'un a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Am y rhesymau hyn, mae'r Llywodraeth yn gwrthod ymestyn y model "symud achosion" presennol, ac yn gadael i'r llysoedd benderfynu ym mha amgylchiadau y byddai cam o'r fath yn briodol ac yn angenrheidiol o ystyried materion yr achos.

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

Byddai ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn darparu mwy o gyfle i ddatblygu'r dehongliad o gyfraith achosion, er mwyn cydnabod bod statws y DU wedi newid. Fel rhan o'r ymateb hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynhyrchu asesiad effaith ar yr opsiynau a drafodwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r asesiad effaith yn seiliedig ar dri opsiwn:

1. **Opsiwn 0**: O dan yr opsiwn hwn, ni fydd y Llywodraeth yn arfer y pŵer i gyflwyno Rheoliadau i alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd eraill wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Golyga hyn mai dim ond Goruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban (pan fydd yn gweithredu fel y llys apêl terfynol) fydd â'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir o 11pm ar y 31ain o Ragfyr.
2. **Opsiwn 1**: Cyflwyno Rheoliadau i ymestyn y pŵer i alluogi Llys Apêl Cymru a Lloegr a'r llysoedd cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill y DU wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.
3. **Opsiwn 2**: Cyflwyno Rheoliadau i ymestyn y pŵer i alluogi Uchel Lys Cyfiawnder Cymru a Lloegr a'r llysoedd cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill y DU wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Er ein bod yn cadw data ar achosion, nid ydym fel mater o drefn wedi bod yn casglu data ar y nifer o achosion sydd naill ai'n ymwneud â chyfraith UE neu sy'n dibynnu ar gyfraith achosion UE. Mi wnaethom wahodd safbwyntiau gan yr ymgyngoreion ar unrhyw effeithiau sydd wedi'u crynhoi uchod. Mae consensws y bydd yn anodd asesu'n ystyrlon effeithiau'r newid hwn heb osod sylfaen glir i ddechrau.

Rydym wedi casglu bod modd rheoli effaith y cynnydd yn nifer yr achosion o ganlyniad i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd eraill ar lefel y Llys Apêl. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn benodol wedi nodi safbwyntiau Llywydd Goruchaf Lys y DU ac Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, gan fod y ddau ohonynt wedi amlinellu manteision gweithredol ymestyn y pŵer i lysoedd ar y lefel hon. Mae yna risg fechan o gostau ariannol uwch i unigolion, busnesau a sefydliadau, ond bydd ehangder y costau hyn yn ddibynnol ar ymddygiad yr ymgyfreithiwr o ran dwyn achos o'r fath, yn ogystal ag ymddygiad barnwrol wrth ymarfer y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Yn seiliedig ar asesiad ansoddol, credwn fod modd rheoli unrhyw effaith ariannol a allai godi ar lefel y Llys Apêl, er nad yw hyn yn ddelfrydol.

Bydd yr Asesiad Effaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn a bydd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.gov.uk/government/consultations/departure-from-retained-eu-case-law-by-uk-courts-and-tribunals.

## Cydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel awdurdod cyhoeddus, roi sylw dyledus i nodau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ac wrth osod polisïau. Fel rhan o'r ymateb hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi llunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesu'r effaith ar gydraddoldeb sy'n deillio o ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir tu hwnt i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill.

Gofynnodd y Llywodraeth am farn yr ymgyngoreion fel rhan o'r ymarfer i asesu effeithiau cydraddoldeb ar y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt. Er bod rhai ymatebion wedi amlinellu'r effeithiau ar gydraddoldeb, nid yw'r ymatebion eu hunain na'r data sydd gennym yn ddigonol i ddod i gasgliadau dibynadwy. Bydd angen monitro'r polisi hwn ar ôl yr ymgynghoriad i asesu'r effeithiau cydraddoldeb yn llawn.

Mae'r polisi hwn yn cyflwyno pŵer i'r llysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir pan fyddant yn ystyried ei fod yn briodol gwneud hynny. Nid yw'r polisi hwn yn atal unigolion rhag gwneud cais i'r llysoedd ynghylch penderfyniadau o'r fath; ac nid yw'n orfodol i'r llysoedd wneud penderfyniad sy'n gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Rydym yn fodlon felly nad oes unrhyw wahaniaethu uniongyrchol o safbwynt rhywun sydd â nodwedd warchodedig gan fod y llysoedd yn parhau i fod yn hygyrch i bawb ac nid yw'r polisi hwn yn ymyrryd â mynediad at gyfiawnder neu'n ei danseilio.

Bydd unrhyw risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn dibynnu'n fawr ar natur yr ymgyfreitha a chwmpas y penderfyniad.

## Prawf Effaith ar yr iaith Gymraeg

Nid yw polisi'r Llywodraeth yn y maes hwn yn newid unrhyw brosesau gweithredol o fewn system y llysoedd yn gyffredinol, neu yng Nghymru yn benodol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi pŵer i'r llysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, ond bydd y pŵer hwn yn cael ei ymarfer o fewn y broses gyfreithiol yng nghwrs unrhyw ymgyfreitha ar y pwynt hwn. Bydd gan GLITEM drefniadau mewn lle i alluogi siaradwyr Cymraeg gael mynediad at y llysoedd a chymryd rhan yn effeithiol mewn achos llys ac nid yw'r polisi hwn yn newid y trefniadau hynny mewn unrhyw ffordd.

Nid ydym wedi cael ymateb i’r ymgynghoriad gan fudd-ddeiliaid o Gymru ar wahân i Lywodraeth Cymru ac, o’r ymatebion a gafwyd, nid oes unrhyw faterion sy’n effeithio’n benodol ar Gymru neu siaradwyr Cymraeg sydd angen ymateb pellach gan y Llywodraeth.

Mae’r ddogfen ymateb hon hefyd ar gael yn Saesneg yn: https://www.gov.uk/government/consultations/departure-from-retained-eu-case-law-by-uk-courts-and-tribunals

# Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i bawb wnaeth roi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol i ymarfer y pŵer a roddwyd o dan Adran 6 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill. Bydd y pŵer yn cael ei ymestyn i lefel y Llys Apêl (neu lys cyfatebol) yn unig. Dyma restr lawn o'r llysoedd fydd yn cael y pŵer hwn:

- Llys Apêl Cymru a Lloegr;
- Llys Apêl y Llys Milwrol;
- Llys Apêl Gogledd Iwerddon;
- Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl yn gwrando ar fater chydnawsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli;
- Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban;
- Llys Apêl Prisio Tiroedd yn yr Alban; a
- Llys Apêl Cofrestriadau yn yr Alban.

Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd ymestyn y pŵer i'r lefel hon yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng yr angen am sicrwydd cyfreithiol a gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn amserol. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, bydd y llysoedd hyn yn defnyddio'r un prawf ac y bydd Goruchaf Lys y DU yn ei ddefnyddio wrth benderfynu p'un a dylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun, sef a yw gwneud hynny'n beth iawn i'w wneud, a bydd yr athrawiaeth gynsail yn parhau i gael ei defnyddio yn y ffordd arferol.

Heddiw (15 Hydref 2020), mae'r Llywodraeth yn cyflwyno gerbron y Senedd Offeryn Statudol a fydd yn gosod y Rheoliadau i roi grym i bolisi'r Llywodraeth ar alluogi Llysoedd a Thribiwnlysoedd yn y DU wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Bydd hyn yn cael ei ystyried a'i drafod gan y Senedd yn ystod y misoedd nesaf, ac os bydd yn cael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ, bydd yn dod i rym ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

**Ymgyngoreion Statudol (4)**

- Llywydd Goruchaf Lys y DU
- Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (ymateb ar y cyd)
- Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon
- Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn

**Y Senedd (1)**

- Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder

**Y Farnwriaeth (3)**

- Tribiwnlys Diwydiannol a’r Tribiwnlys Cyflogaeth Deg
- Yr Arglwydd Adfocad
- Siryf George Jamieson

**Gweinyddiaethau Datganoledig (3)**

- Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon
- Humza Yousaf, BPA / MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder, Llywodraeth Yr Alban
- Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru, Llywodraeth Cymru

**Gwasanaethau Cyfreithiol (30)**

- Cymdeithas y Bar – Cyfraith Weinyddol
- Allen & Overy LLP
- Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol
- Grŵp Ewropeaidd y Bar
- Bird and Bird LLP
- Cymdeithas y Gyfraith Birmingham
- Browne Jackson LLP
- Cymdeithas Bar y Siawnsri
- Sefydliad Siartredig Twrneiod Patentau a Sefydliad Siartredig Twrneiod Nodau Masnach
- Cymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain
- Clifford Chance LLP
- Bargyfreithwyr Masnachol Cymru a Lloegr
- Deloitte LLP
- Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth
- Cyfadran yr Adfocatau
- Pwyllgor Cyfreithiol y Marchnadoedd Ariannol
- Freshfields Bruckhaus Deringer LLP

- Herbert Smith Freehills LLP
- International Family Law Group LLP
- Pwyllgor Cyfraith Ryngwladol
- Linklaters LLP
- Cymdeithas y Gyfraith Lerpwl
- Public Law Project
- Cyngor y Bar
- Bar Gogledd Iwerddon
- Cymdeithas y Gyfraith
- Cymdeithas y Gyfraith Yr Alban
- Thomas de la Mare CF a Chanolfan Cynnal y Gyfraith Bingham
- Thompsons Solicitors LLP
- Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU

**Academyddion Cyfreithiol (4)**

- Canolfan Cyfraith Gyhoeddus a Chanolfan Astudiaethau Cyfreithiol Ewropeaidd, Cyfadran y Gyfraith, Prifysgol Caergrawnt
- Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Aberdeen
- Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Essex
- Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caeredin

**Busnesau a Sefydliadau Eraill (12)**

- Sefydliad Siartredig Trethiant
- Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff
- Cofiadwr y Ddinas
- Fforwm Busnesau Preifat
- Cyfeillion y Ddaear
- GC100
- Gwyrddach DU a Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cymdeithas Rhyngwladol Amddiffyn Eiddo Deallusol
- Natural England
- TheCityUK
- Cymdeithas Diwydiant Bio y DU

**Undebau Llafur (3)**

- Undeb y Brigadau Tân
- Cyngres yr Undebau Llafur
- Unsain

**Cyrff Rheoleiddiol (2)**

- Yr Awdurdod Hedfan Sifil
- Asiantaeth yr Amgylchedd

**Sefydliadau Hawliau Dynol (4)**

- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Equally Ours
- Consortiwm Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon
- Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon

**Aelodau'r Cyhoedd (9)**

- Joseph Ashford
- Chris Blagg
- Peter Browning
- Kieran Buxton
- Michael Hall
- Clare Payne
- John Searby
- Paul Stockton
- James Tumbridge

# Atodiad B – Ymatebion i'r ymgynghoriad: Crynodeb

## Ymgyngoreion Barnwrol Statudol

Mae Adran 6(5C) Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn mynnu bod Gweinidog y Goron yn ymgynghori â Llywydd Goruchaf Lys y DU, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (ynghyd ag unrhyw unigolyn priodol arall) cyn gellir gwneud y Rheoliadau.

Ni wnaeth yr Arglwydd Brif Ustus nag Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd unrhyw sylwadau ynghylch a ddylid ymestyn y pŵer, fodd bynnag, roedd y tri uwch farnwr arall i gyd yn cefnogi ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd eraill. Mi wnaeth pob un o'r pump uwch farnwr ddangos ffafriaeth tuag at Opsiwn 1 gan ddefnyddio'r un prawf a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU. Er eu bod wedi cydnabod y byddai ymestyn y pŵer yn golygu ansicrwydd cyfreithiol, roeddynt yn credu bod Opsiwn 1 yn taro cydbwysedd rhwng ragweladwyedd a sicrwydd yn y gyfraith a chapasiti gweithredol.

Nododd Llywydd Goruchaf Lys y DU y gallai ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lefel y Llys Apêl helpu i ysgafnhau'r baich ar Oruchaf Lys y DU ac y byddai o fantais i'r llys glywed ystyriaethau'r Llys Apêl mewn achosion sy'n cael eu gwrando ganddynt. Dywedodd hefyd y byddai'r ansicrwydd cyfreithiol gydag Opsiwn 2 yn waeth oherwydd y gwahanol ddarpariaethau ar gyfer adrodd ar ddyfarniadau ar draws lefelau gwahanol llys.

Dywedodd yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd bod Opsiwn 1 yn caniatáu mwy o sgôp i ailystyried cyfraith achosion yr UE a gedwir ond y byddai'n "*annhebygol o greu cynnydd anhydrin mewn ymgyfreitha*".

Mynegodd Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon bryderon sylweddol ynghylch effaith Opsiwn 2 o ran gweithrediad Protocol Gogledd Iwerddon a'r risg sylweddol o ddargyfeiredd ac ansicrwydd y byddai hyn yn ei achosi nid yn unig yng Ngogledd Iwerddon ond hefyd ar draws y DU. Dywedodd, oherwydd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon yn y Cytundeb Ymadael bod llawer iawn o gyfraith UE yn parhau i fod yn uniongyrchol gymwys ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben, mae yna yn barod "*ragolwg gwirioneddol o ddargyfeiredd rhwng cyfraith UE sy'n uniongyrchol gymwys yng Ngogledd Iwerddon ac unrhyw gyfraith achosion yr UE a gedwir (y gellir gwyro oddi wrthynt)*". Yn ei farn ef, mae'r cymhlethdod hwn yn cefnogi'r opsiwn i gyfyngu'r pŵer i lefel y Llys Apêl er mwyn lliniaru'r

risg o ddargyfeiredd (i’r graddau y mae hyn yn ymarferol o dan yr amgylchiadau), yn arbennig o ystyried y ffaith y gallai dehongliad cyfreithiol anghywir gan lys is arwain at fethiant gan y DU i gydymffurfio â’i oblygiadau rhyngwladol o dan y Cytundeb Ymadael. Ar ôl pwyso a mesur daeth i’r casgliad bod manteision ymarferol ymestyn y pŵer hwn i lefel y Llys Apêl yn rhagori ar yr anfanteision.

Mi wnaeth yr Arglwydd Lywydd gefnogi Opsiwn 1 ar y sail “*y byddai’n ysgafnhau’r baich ar Oruchaf Lys y DU o orfod delio â heriau o’r pedwar awdurdodaeth, ar yr un pryd â chaniatáu iddo elwa o brofiad llysoedd apeliadol wrth ddistyllu a hidlo cwestiynau cyfreithiol. Mae’n amddiffyn sicrwydd cyfreithiol.*”

Roedd pawb yn gytûn y dylai’r cynsail barhau i weithredu fel y mae (gyda phenderfyniadau llysoedd uwch yn rhwymo’r llysoedd is) i liniaru, cyn belled a bo hynny’n bosibl, yr ansicrwydd cyfreithiol a fydd fel arall yn bodoli. Nid oedd y barnwyr hyn yn credu bod angen pennu unrhyw ystyriaethau ychwanegol ar gyfer prawf Goruchaf Lys y DU ar wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun gan fod y prawf wedi’i hen sefydlu a bod llawer iawn o gyfraith achosion yn ei gefnogi sy’n darparu digon o gyfarwyddyd ar ddefnyddio’r prawf. Dywedodd Llywydd Goruchaf Lys y DU y byddai unrhyw ymgais i ddatblygu “*rhestr o ffactorau sy’n ddigon penodol i fod o gymorth i’r llysoedd”* yn heriol dros ben a byddai rhaid ymgynghori â nifer o fudd-ddeiliaid.

## Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder

Roedd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn cefnogi Opsiwn 1, gan ddefnyddio’r un prawf a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU. Roedd y Pwyllgor yn bryderus petai Opsiwn 2 yn cael ei ddatblygu “*fe allai arwain at lefel sylweddol o ansicrwydd cyfreithiol a dargyfeiredd posibl ar draws awdurdodaethau yn y DU*” a fyddai’n “*niweidiol i unigolion a chwmnïau.*” Mi wnaeth y Pwyllgor awgrymu hefyd bod y prawf yn fwy addas ar gyfer llys apeliadol a’i fod yn rhy benagored i lysoedd gwrandawiad cyntaf. Fodd bynnag, mi fyddent yn cefnogi opsiwn arall o ganiatáu i’r Uchel Lys a’i lysoedd cyfatebol gyfeirio cwestiwn ynghylch a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn uniongyrchol i Oruchaf Lys y DU; er byddai hyn yn golygu cael deddfwriaeth sylfaenol, roedd y Pwyllgor o’r farn ei fod yn ffordd fwy addas o weithredu ynghylch materion o’r math hwn.

## Y Farnwriaeth

Roedd y tri ymateb a gafwyd i’r ymgynghoriad yn cefnogi’r newidiadau a gynigiwyd. Roeddynt yn unfrydol yn cefnogi Opsiwn 1 oherwydd effeithiau gweithredol andwyol cadw’r pŵer i wyro gyda Goruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban a fyddai’n arwain at ôl-groniad annerbyniol o apeliadau; yn enwedig yn y maes cyfraith cyflogaeth lle mae achosion cyfraith yr UE yn effeithio ar nifer o faterion, er enghraifft amser gwaith a gwahaniaethu.

## Gweinyddiaethau Datganoledig

Mi wnaeth Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru ymateb i’r ymgynghoriad. Er na chafwyd ymateb gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, bu i Dwrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon ymateb. Roeddynt i gyd yn cefnogi Opsiwn 1 gan ddefnyddio’r un prawf â’r un a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU. Roeddynt hefyd yn cytuno y dylai’r cynsail barhau fel y mae i ddiogelu sicrwydd cyfreithiol.

## Sector Gwasanaethau Cyfreithiol

Roedd yna gefnogaeth gref dros beidio â chyflwyno unrhyw Reoliadau o gwbl a pharhau â’r sefyllfa bresennol gyda’r pŵer i wyro ond ar gael i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban o ddiwedd y Cyfnod Pontio. Mi wnaeth nifer o’r ymatebwyr ddadlau, fel mater o egwyddor, mai cyfrifoldeb y Senedd ac nid y llysoedd yw pennu fframwaith ar gyfer gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar p’un a ddylai llysoedd allu gwyro - mae’r Senedd eisoes wedi penderfynu y dylent - ond pa lysoedd ychwanegol, os o gwbl, ddylai allu ymarfer y pŵer hwn.

Roedd llawer o’r rheini nad oedd yn cefnogi’r cynnig i ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn credu y byddai Opsiwn 1 yn opsiwn mwy ffafriol o gymharu ag Opsiwn 2. Ystyriwyd bod ymestyn y pŵer i lefel y Llys Apêl yn *“gyfaddawd”* y gellir ei reoli. Mewn amgylchiadau o’r fath, roedd y mwyafrif yn credu y dylai’r cynsail barhau i weithredu fel y mae a dylai’r prawf fod yr un fath â’r un a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU.

## Academyddion Cyfreithiol

Roedd y rhan fwyaf yn erbyn y cynnig i ymarfer y pŵer i wneud Rheoliadau, ond, yn debyg i’r sector gwasanaethau cyfreithiol, ystyriwyd bod Opsiwn 1 yn gyfaddawd addas. Roedd y pryderon a fynegwyd yn ymwneud ag aneglurder egwyddorion cyfansoddiadol yn y DU gan fod y pŵer yn cyflwyno llysoedd a thribiwnlysoedd gyda swyddogaeth deddfwriaethol, rhywbeth ddylai’r Senedd ei wneud bob amser. Fodd bynnag, wrth ystyried y pryderon hyn mae’n bwysig nodi nad oedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ynghylch p’un a ddylai llysoedd allu gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir – mae’r Senedd eisoes wedi penderfynu y dylent – ond pa lysoedd eraill, os o gwbl, ddylai allu ymarfer y pŵer hwn. Roedd yna gwestiynau hefyd ynghylch p’un a oedd gan y llysoedd (waeth ar pa lefel y mae) yr arbenigedd angenrheidiol i wneud penderfyniadau o’r fath. Mi wnaethant hefyd nodi y byddai ymestyn y pŵer hwn yn eang yn achosi heriau sylweddol i sicrwydd cyfreithiol.

## Busnesau a Sefydliadau Eraill

Roedd y gymuned fusnes yn gadarn yn erbyn gwneud unrhyw newidiadau i’r drefn arferol ac roeddynt yn gwrthwynebu gwneud y Rheoliadau hyn yn daer. Roedd y pryderon a oedd ganddynt ynghylch ymestyn y pŵer i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn canolbwyntio ar risg gynyddol o ansicrwydd cyfreithiol, y risg o ddargyfeiredd wrth wneud penderfyniadau tebyg ar draws y DU a’r risg canlyniadol i enw da’r DU fel fforwm da ar gyfer setlo anghydfodau rhyngwladol. Roedd consensws o ran isa’n byd yw lefel y llys y rhoddir pŵer i ymestyn iddo, yna mwya’n byd yw’r risg ac effeithiau hyn yn ymarferol.

## Undebau Llafur

Nid oedd yr undebau llafur yn cefnogi unrhyw newidiadau i’r sefyllfa fel y mae yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (hynny yw, mai dim ond Goruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban sydd â’r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir) ac roeddynt yn bryderus ynghylch effeithiau gwneud newidiadau i hyn ar gyfraith cyflogaeth a hawliau gweithwyr a’r risg o ansicrwydd cyfreithiol petai’r pwyntiau cyfreithiol hyn sydd wedi’u setlo yn cael eu hail-ymgyfreitha. Roeddynt yn gwrthwynebu’n gryf unrhyw gynnig a fyddai’n tanseilio’r athrawiaeth gynsail gan y byddai’n achosi ansicrwydd ac aflonyddwch sylweddol i gyflogwyr a gweithwyr, ac roeddynt yn glir eu barn na ddylai’r Llywodraeth wneud y Rheoliadau am y rhesymau hyn. Mi wnaethant hefyd nodi bod hyn yn groes i’r sefyllfa a nodwyd yn y Papur Gwyn sef y byddai penderfyniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, cyn i’r DU adael yr UE, yn cael eu trin fel penderfyniadau fel y byddant wedi’u gwneud gan Oruchaf Lys y DU.

## Cyrff Rheoleiddiol

Nid oedd yr ymgyngoreion a wnaeth ymateb i’r ymgynghoriad yn dangos ffafriaeth glir tuag at unrhyw opsiwn ond mi wnaethant godi pwyntiau y dylid eu hystyried wrth wneud penderfyniad. Mi wnaethant nodi’r risg y byddai niferoedd achosion yn cynyddu petai’r pŵer yn cael ei ymestyn, yn ogystal â’r goblygiadau o ran costau oherwydd beichiau achos uwch, niferoedd a chymhlethdod yr ymgyfreitha a golygiadau hyn ar yr adnoddau cysylltiedig, capasiti a gallu llysoedd a thribiwnlysoedd is. Mi wnaethant hefyd gwestiynu p’un a oedd y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno darpariaeth drawsnewidiol o safbwynt gwneud y Rheoliadau, fel y bod materion o’r fath ond yn cael eu hystyried ar gyfer achosion a gychwynnir ar ôl i’r Cyfnod Pontio ddod i ben.

## Sefydliadau Hawliau Dynol

Nid oedd yr ymatebion a gafwyd gan y sector hwn yn cefnogi ymestyn y pŵer o gwbl tu hwnt i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban (pan fydd yn eistedd fel llys apêl terfynol). Mi wnaeth y sefydliadau amlygu'r risg i sicrwydd cyfreithiol petai llysoedd is yn cael y pŵer hwn. Dadleuodd Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon a Chonsortiwm Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon fod yna rwymedigaeth o dan y Protocol i barhau i wneud defnydd o gyfraith UE mewn rhai meysydd ac fe allai hyn arwain at ddargyfeiredd anfwriadol rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill yr awdurdodaethau yn y DU. Felly, dylid gadael i farnwyr uchaf y DU, sef barnwyr Goruchaf Lys y DU wneud penderfyniadau sydd o bwys fel hyn.

## Aelodau'r Cyhoedd

Roedd yr ymatebion hyn yn amrywiol ac yn amrywio'n sylweddol o ran manylder. Ni wnaeth rhai o'r unigolion a oedd yn cefnogi ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir tu hwnt i Oruchaf Lys y DU (ac Uchel Lys Cyfiawnder Yr Alban pan fydd yn eistedd fel y llys apêl terfynol) roi rhesymau i gefnogi eu safbwyntiau. Er bod y mwyafrif yn ffafrio Opsiwn 1, mi wnaethant dynnu sylw at y risg i'r egwyddor cynsail a'r byrdwn ar lysoedd is a thribiwnlysoedd i ystyried cyfraith achosion cyfnewidiol o Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

CCS1020297428

978-1-5286-2175-5